Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

Tachwedd 2018

www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

Tachwedd 2018

www.cynulliad.cymru

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cadeirydd y Pwyllgor:

Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru

Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn

Adam Price AC
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon

Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd 5

Argymhellion 7

1. Cyflwyniad 9

2. Canlyniadau 11

Pam mae hyn yn bwysig? 11

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym: 13

I ba gasgliadau y daethom? 14

Y canlyniadau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc 14

Yr hyn rydym yn ei wybod am ganlyniadau addysgol 17

Y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau 21

3. Gwario ar leoliadau 24

Pam mae hyn yn bwysig? 24

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym: 26

I ba gasgliadau y daethom? 27

Lleoliadau 27

Lleoliadau Awdurdod Lleol o gymharu â Lleoliadau Asiantaethau Annibynnol 28

Prinder lleoliadau 30

Adolygiadau diwedd lleoliadau 33

Modelau comisiynu a recriwtio 34

4. Cyllid tryloyw 38

Pam mae hyn yn bwysig? 38

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym: 40

I ba gasgliadau y daethom? 42

Tryloywder y gwariant ar blant sydd wedi bod mewn gofal 42

System mewn argyfwng? 43

Amrywiad yng ngwariant gwasanaethau cymdeithasol 43

Symud arian wedi'i neilltuo i'r Grant Cynnal Refeniw 44

Y Grant Datblygu Disgyblion 46

5. Atal ac ymyrraeth 50

Pam mae hyn yn bwysig? 50

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym: 51

Beth y gwnaethom ddysgu am hyn? 52

Canlyniadau gwell o fuddsoddiad mewn gwasanaethau 'ar ffiniau gofal'? 52

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed 57

Symud ymlaen o ofal 61

Rhianta Corfforaethol 62

Eiriolaeth 65

Atodiad - Tystion 68

Rhagair y Cadeirydd

Mae gan awdurdodau lleol Cymru fwy o blant yn eu gofal nag erioed o'r blaen. Bellach mae dwywaith cymaint o blant mewn gofal yn 2017 o'i gymharu â 1997, gyda'r niferoedd presennol yng Nghymru bron yn 6,000. Dros y degawd diwethaf, mae ceisiadau am orchmynion gofal wedi mwy na dyblu yng Nghymru a Lloegr.

Pan na all plant fyw gyda'u teuluoedd geni am ba bynnag reswm, mae'n hanfodol bod y gofal a ddarperir iddynt gan wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, ac wedi'i gydgysylltu a'i deilwra i'w hanghenion unigol. Yn yr un modd ag y byddem yn gobeithio y byddai rhieni geni, rhaid i 'rieni corfforaethol' gymryd o ddifrif eu cyfrifoldebau i ddiwallu anghenion cyfannol y plant hyn a defnyddio eu hadnoddau er budd y plentyn. Yn aml, plant sydd wedi bod mewn gofal yw'r plant sydd fwyaf agored i niwed a rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddarparu'r gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt.

Rôl ein Pwyllgor ni yw ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sut y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fel y rhan gyntaf o'n ffocws ar yr adnoddau cyhoeddus a ddarperir i blant sydd wedi bod mewn gofal, roedd y Pwyllgor am edrych ar y pryderon hirsefydlog a difrifol o ran canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Credwn fod hyn yn adlewyrchu pryderon parhaus ynghylch y modd y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i'w cefnogi. Credwn fod cyfle i ddefnyddio 'gwariant ataliol' yn well i sicrhau canlyniadau gwell yn yr hirdymor i blant.

Drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau o ansawdd uchel nawr, gallwn leihau'r angen posibl am wasanaethau drud yn y dyfodol, fel mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac iechyd meddwl gwael oedolion. Dylai gwasanaethau o ansawdd uchel hefyd leihau'r risg o blant y plant sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu cymryd i ofal, ar gost sylweddol i'r pwrs cyhoeddus yn ogystal â chael effaith andwyol ar deuluoedd. Un datblygiad diweddar sydd o ddiddordeb arbennig inni yw'r gwariant ar 'wasanaethau ar ffiniau gofal' sydd â'r bwriad o atal plant rhag mynd i mewn i'r system ofal. Credwn fod achos cynyddol dros aildargedu cyllid tuag at wasanaethau o'r fath.

Rydym wedi ceisio dadansoddi'r symiau a wariwyd gan bawb sy'n gyfrifol am ddarparu gofal i'r plant hyn, nid dim ond gwasanaethau cymdeithasol. Canfuwyd her sylweddol wrth nodi cyllid a wariwyd gan addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), heddluoedd, Timau Troseddu Ieuenctid a thai o'i gymharu â gwariant gwasanaethau cymdeithasol ar blant sydd wedi bod mewn gofal. Mae diffyg tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer y gwariant hwn. Mae

hyn yn annerbyniol ac yn golygu mai dim ond gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu hystyried yn atebol am ganlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Rydym yn glir bod yn rhaid i wariant fod yn fwy tryloyw a bod cyfrifoldeb cyfunol gwirioneddol ar gyfer 'rhianta corfforaethol' ar draws ystod eang o gyrff cyhoeddus.

Yn ystod cam cyntaf ein hymchwiliad, rydym wedi gwrando ar farn gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ran plant sydd wedi bod mewn gofal a chyda hwy. Yn bwysig, rydym hefyd wedi gwrando ar brofiadau plant sydd wedi 'derbyn gofal' gan y system. Ein casgliad yw bod angen newid ystyrlon a chynhwysfawr. Mae hyn yn ymwneud â'r ffordd y mae adnoddau ar gael i wasanaethau a'r flaenoriaeth a roddir i bethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Rydym wedi cadw mewn cof bod hyn yn ymwneud â phlant go iawn a phrofiadau go iawn. Er ein bod yn glir bod llawer o weithwyr proffesiynol yn ymroddedig ac yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel dan amgylchiadau anodd, mae hefyd yn amlwg bod gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal dan bwysau sylweddol ac yn wynebu heriau difrifol. Er ein bod yn croesawu'r gwaith a wneir gan Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru, rydym yn ymrwymedig i graffu ymhellach ar y mater hwn.

Rhaid gwella'r canlyniadau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu darparu ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae angen i'r profiadau unigol fod yn well. Nid yw'n ymwneud â mwy o arian yn unig - ond am ddefnyddio'r adnoddau presennol yn fwy strategol.

Mae'r pris yn rhy uchel i system sy'n cyflawni canlyniadau gwael o'r fath - y gost ariannol ac yn bwysicach na hynny, y gost a delir gan blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd fwyaf angen ein gofal.

Byddwn ar fai, mewn adroddiad sy'n edrych ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, pe na bawn yn talu teyrnged i'm cyfaill a fy nghyn-gydweithiwr Carl Sargeant a gymerodd gamau pwysig yn y maes hwn yn ystod ei gyfnod fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o ddangosyddion i asesu'r canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal ac yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r pethau hynny sy'n bwysig i bobl ifanc. Rhaid i farn pobl ifanc fod yn rhan annatod o ffurfio, llywio a gwerthuso'r rhain, a dylai gael ei lywio'n uniongyrchol gan waith y Grŵp Cynghori Gweinidogol ac unrhyw werthusiad o arolwg Bright Spots. .....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canlyniadau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu mesur yn ôl "pellter a deithiwyd" ochr yn ochr â mesurau cyrhaeddiad, a gwerthuso effeithiolrwydd y Grant Datblygu Disgyblion i gael y canlyniadau hyn......Tudalen 21

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth gyhoeddus am y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael ei gwella ar wefan Llywodraeth Cymru i gynyddu atebolrwydd a chaniatáu gwaith craffu. Rydym yn argymell, fel isafswm, y cyhoeddir y canlynol:

- Aelodaeth;
- Cofnodion cyfarfodydd;
- Pherfformiad yn erbyn dangosyddion. .....Tudalen 23

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad o gostau lleoliadau asiantaethau annibynnol, gan archwilio'r canlyniadau gwahanol a gyflwynir ar draws oes plentyn am y gost ychwanegol er mwyn creu sail dystiolaeth wybodus ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol yn y maes hwn. .....Tudalen 30

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o amlder ac effeithiolrwydd yr adolygiadau diwedd lleoliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith adolygiadau o'r fath ar y plentyn dan sylw. .....Tudalen 34

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer dadansoddi darpariaeth lleoliadau. Ni fyddem yn disgwyl i'r gwaith hwn gymryd mwy na thri mis i'w ddechrau ac iddo gael ei gyflwyno o fewn deuddeng mis. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y dylid darparu gwasanaethau yn unol ag uchelgais y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yna gallai lywio strategaeth genedlaethol ar

gyfer comisiynu a rheoli'r sbectrwm llawn o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Tudalen 37

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o wariant ar blant sy'n derbyn gofal ar draws yr ystod o wasanaethau sy'n rhan o'u gofal, er enghraifft addysg, tai a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr o'r arian a fuddsoddir i gefnogi'r grŵp hwn. Tudalen 42

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad cymharol o'r amrywiaeth mewn gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal rhwng awdurdodau lleol i ddatblygu sylfaen o wybodaeth ynghylch amrywiaeth costau i annog arfer da. Dylai hyn hefyd adlewyrchu'r canlyniadau o fewn pob awdurdod a chael ei gyhoeddi ar ôl ei gwblhau. Dylai fod yn ymarfer casglu gwybodaeth rheolaidd ac ar ôl cwblhau hyn ar gyfer y cyfnod 2018-19, dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r wybodaeth a gafwyd, a nodi amserlen ar gyfer casglu gwybodaeth yn y dyfodol. Tudalen 44

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, adolygu effaith trosglwyddo cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal i'r Grant Cynnal Refeniw o fis Ebrill 2018 i asesu'r effaith ar blant sydd wedi bod mewn gofal a gwasanaethau ar ffiniau gofal. Tudalen 46

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru dargedu cyllid wedi'i neilltuo at wasanaethau ar ffiniau gofal sydd â'r potensial, pan fo'n ddiogel gwneud hynny, i atal plant rhag bod yn rhan o'r system ofal. Dylai'r arian hwn archwilio gwerth elfennau megis gofal perthynas. Gallai hefyd gefnogi awdurdodau lleol i fonitro canlyniadau'n barhaus ar gyfer y plant unigol hyn a gwerth am arian y gwariant ataliol hwn. Tudalen 57

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei hymateb i adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg erbyn mis Mawrth 2019, gan ddarparu gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon yn yr adroddiad hwnnw o ran plant sydd wedi bod mewn gofal yn unol â chais Cadeirydd y Pwyllgor. Tudalen 61

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr holl blant sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu hysbysu'n rheolaidd o'u hawl i eiriolwr ac yn cael gwybodaeth glir am sut i gael gafael ar yr ystod o wasanaethau eirioli sydd ar gael. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro hyn a'i ymgorffori yn y dangosyddion ar gyfer y Grŵp Cynghori Gweinidogol. Tudalen 66

1. Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gyfrifol am edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian a gwneud awgrymiadau ar sut y gellid gwneud hyn yn well. Rydym yn gofyn i bobl ysgrifennu atom a dod i siarad â ni i rannu eu barn a'u profiadau. Ar ôl gwrando ar bawb, rydym yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth Lywodraeth Cymru beth sydd angen ei newid.

2. Wrth edrych ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal gofal, gwnaethom ystyried a yw arian yn cael ei wario ar y pethau cywir ac a ydynt yn cael y cymorth iawn. Roedd gennym ddiddordeb mewn pethau fel ble roedd plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn byw pan oeddent mewn gofal, faint o weithiau roedd yn rhaid iddynt symud, p'un a gawsant y cymorth cywir yn yr ysgol a chymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol yn yr ysgol.

3. Cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â'r ymchwiliad hwn dros y Cynulliad cyfan hwn (2016-2021), er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn ystyried y materion sydd wedi codi fel y caiff newid go iawn ei sicrhau - yn hytrach na dim ond ysgrifennu un adroddiad ac yna ei fod yn cael ei anghofio.

4. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi bod mewn gofal a gytunodd i siarad â ni er mwyn ein helpu i ddeall yr heriau y maent yn eu hwynebu.

5. Daeth pum person ifanc i siarad gyda ni yn ystod un o'n cyfarfodydd yn y Senedd. Cynhaliwyd sesiynau eraill ledled Cymru yn Abertawe, Conwy, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn gyda phobl ifanc rhwng 6 a 25 oed o bron pob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ar hyn o bryd yn ogystal â'r rheini sydd wedi gadael y system ofal yn ddiweddar. Mewn rhai o'r sesiynau, cefnogwyd y bobl ifanc gan eu gweithwyr cymdeithasol a'u gofalwyr maeth a oedd hefyd yn rhoi eu barn. Rhoddodd cyfanswm o 30 o blant a phobl ifanc dystiolaeth. Mae crynodeb o'r dystiolaeth hon ar gael ar ein tudalennau gwe.[1]

6. Rydym yn cyfeirio at "blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal" yn hytrach na "phlant sy'n derbyn gofal" oherwydd cawsom wybod nad yw'r label "plentyn sy'n derbyn gofal", ac yn enwedig y fersiwn fyrrach "LAC" ar gyfer "looked after children", sydd o bosibl yn rhoi'r argraff o blant sydd heb rywbeth, yn cael ei

[1] **Crynodeb y Grŵp Ffocws** - Hydref 2017

hoffi gan rai plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mewn rhai achosion rydym wedi defnyddio'r term "plant sy'n derbyn gofal" wrth awgrymu newidiadau gan mai dyma'r term statudol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

7. Yn dilyn y cytundeb, ond cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, gwnaeth y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn[2] yn ymwneud â *Gwella canlyniadau i blant: Lleihau'r angen i blant fynd i ofal a gwaith y Grŵp Cynghori Gweinidogol* ar 13 Tachwedd 2018. Mae datganiad y Gweinidog yn nodi rhai o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn dyrannu cyllid gwerth £15 miliwn ar gyfer lleihau'r angen i blant fynd i mewn i ofal. Byddwn yn monitro'r datblygiadau hyn fel rhan o'r gwaith hwn.

8. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn rydym wedi'i ganfod hyd yma. Mae'n herio Llywodraeth Cymru a phawb i wneud yn well ac yn nodi'r hyn rydym am ei weld yn digwydd dros y tair blynedd nesaf.

[2] Llywodraeth Cymru Datganiad Llafar: **Gwella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Mewn i Ofal, a Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog**, 13 Tachwedd 2018

2. Canlyniadau

Gwnaethom ystyried a yw'r lefelau presennol o wariant cyhoeddus yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Pam mae hyn yn bwysig?

9. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mae dyletswydd ar Weinidogion ac Ysgrifenyddion Cabinet Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r graddau mwyaf o adnoddau sydd ar gael i weithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn, gan gynnwys Erthygl 20.[3]

10. Mae'r canlyniadau hirdymor yn waeth i blant mewn gofal na'r boblogaeth gyfartalog, er enghraifft:

- Maent wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol ac yn y carchar;
- Nid oedd 39 y cant o'r rhai a oedd yn gadael gofal yn 19 oed mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn 2016 (y ganran isaf yn y naw mlynedd diwethaf); a
- Dim ond saith y cant o bobl ifanc yn gadael gofal yn 19 oed yng Nghymru a oedd mewn Addysg Uwch, sy'n gyfanswm o 24 o fyfyrwyr yn 2011.

11. O ran addysg, mae'r ffigurau'n dangos bod 21 y cant o blant sy'n derbyn gofal wedi cyrraedd trothwy Lefel 2[4] yn 2017, o'i gymharu â 67 y cant o'r holl ddisgyblion. Dim ond 12 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 cynhwysol, o'i gymharu â 55 y cant o'r holl ddisgyblion.

[3] Mae Erthygl 20 yn dweud bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddiogelwch a chymorth arbennig gan y wladwriaeth os na allant fyw gyda'u teulu.

[4] Mae'r mesur ar gyfer trothwy Lefel 2 yn gyfwerth â phum TGAU neu fwy, graddau A*-C, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Mae'r trothwy Lefel 2 cynhwysol yn golygu bod yn rhaid i'r 5 TGAU hyn neu fwy, neu'r cymwysterau galwedigaethol cyfatebol, gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg.]

12. Mae heriau sylweddol wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymorth therapiwtig amserol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Canfu Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2016 fod 7 y cant o blant sy'n derbyn gofal yn cael diagnosis o fod â "phroblem iechyd meddwl", ac yn derbyn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, neu y maent ar restr aros am y gwasanaeth. Mae hyn yn debygol o fod yn danamcangyfrif sylweddol o'r canran y mae angen cymorth iechyd meddwl ac iechyd emosiynol arnynt.

13. Rhoddodd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy dystiolaeth gref fod newid eu gweithwyr cymdeithasol yn aml wedi cael effaith negyddol sylweddol arnynt. Gwnaethant hefyd ddweud fod gorfod symud lleoliadau yn un o'r profiadau gwaethaf o fod mewn gofal.

14. Dim ond un dangosydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal sydd gan Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn 16 oed. Yn fwy diweddar mae rhagor o allbynnau yn cael eu monitro yn Fframwaith Mesur Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol.

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol (MAG) ar gyfer Gwella Canlyniadau, ond mae llawer o gwestiynau ynghylch sut y mae hyn yn gweithio:

- Beth yw ei rôl wrth sicrhau newid?
- Sut y gellir ei ddwyn i gyfrif am ei raglen waith ar gyfer 2017-2020 o ystyried ei statws fel grŵp sy'n cynghori'r llywodraeth?

16. Roedd diffyg cysondeb yn thema allweddol a oedd yn deillio o'r grwpiau ffocws. Tynnodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr sylw at y nifer aflonyddgar o leoliadau a gweithwyr cymdeithasol a gawsant. Roedd y rhan fwyaf wedi'u symud yn amlach nag yr hoffent ac wedi cael trosiant uchel mewn gweithwyr cymdeithasol. Nodwyd ansawdd y gweithwyr cymdeithasol hefyd. Soniodd un o'r cyfranogwyr am "addewidion wedi'u torri" wrth drefnu i gyfarfod â'i weithiwr cymdeithasol neu gyfathrebu â hwy a soniodd un arall yr ymddengys nad oedd ei weithiwr cymdeithasol yn poeni llawer amdano. O'r trafodaethau grŵp, roedd yn amlwg bod llawer o'r plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy yn teimlo eu bod yn cael eu gweld fel "achos ffeil" gan eu gweithiwr cymdeithasol. Roedd hyn, ynghyd â'r aflonyddwch o ran symud i leoliadau newydd yn aml a'r trosiant uchel o ran gweithwyr cymdeithasol, yn niweidiol i feithrin ymddiriedaeth yn y rhai sy'n eu cefnogi.

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym:

“Young people need a constant in their life. That constant could be one placement, or it could be one social worker. It could even be as little as staying in the same school even though they’ve moved.”

“I noted the number of (Social workers) how many I had. In the 12 years I was in care, I had about 40 maybe.”

“So, this young woman has lived at our project for the last four months, and in four months they’ve changed five workers for her, which is really difficult.”

“I had a text message last week saying that our time was up with her working with me. There’s no meeting for a goodbye, or ‘I’m leaving”

“I was told, going through school and being in care, that I wouldn’t pass any of my GCSEs. So, for me to go to school that one day, on GCSE day, to find that I passed pretty much all of them”.

“Social services were quick enough to take me away from my family but didn’t given them the help they needed to keep me at home”

I ba gasgliadau y daethom?

Y canlyniadau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc

17. Mae sefydlogrwydd yn hollbwysig i wella canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig inni gan blant a phobl ifanc o ran cael gweithiwr cymdeithasol cyson a lleoliadau hirdymor o safon.

18. Yn ystod sesiwn dystiolaeth breifat, clywodd y Pwyllgor fod y diffyg sefydlogrwydd a'r ansicrwydd a achosir gan newidiadau i weithwyr cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar blant. Dywedodd y Comisiynydd Plant wrthym:

> "If, as a child, one of the things you've learnt from your experience is, 'Well, I shouldn't trust adults, because adults never do anything nice for me; adults are the people that hurt me or don't look after me', we shouldn't be taking children away from those situations and then placing them back into a system that tells them the same thing: you shouldn't trust adults, you shouldn't rely on them; adults let you down."[5]

19. Aeth Sally Holland ymlaen i ddweud:

> "...it's a real big indicator of a service to children. If they've had five social workers in the last year, it's been a very, very difficult experience for them and it's not something that we have data on at the moment."[6]

20. Adleisiodd Gofal Cymdeithasol Cymru bwysigrwydd sefydlogrwydd:

> "Cyfraniad gwybyddus i ddatblygu gwydnwch plant yw cael perthnasau sefydlog gydag oedolion."[7]

21. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad a wneir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, fel y corff rheoleiddio ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol, i sicrhau y gall gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso[8] fodloni heriau ac anghenion y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Cawsom ein synnu gan dystiolaeth Fabric, nad oes modiwl ar hyn o bryd yn y cwrs Gwaith Cymdeithasol ar gyfer darparu cymorth i bobl ifanc yn eu harddegau, o ystyried y set benodol o anghenion sydd ganddynt o gymharu â phlant ifanc.

[5] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sesiwn breifat, 12 Chwefror 2018

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 295

[7] Gofal Cymdeithasol Cymru, Chwefror 2018.

[8] Gofal Cymdeithasol Cymru, Chwefror 2018

22. Sefydlwyd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i fodloni gofyniad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddisgrifio a darparu dull cyson o fesur lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Dim ond un dangosydd sydd yn y fframwaith hwn sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'n ymwneud â'r sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol.

23. Dywedodd y Cynghorydd Geraint Hopkins, o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

> "One of the key things is how many times does a child move placement, for example, now that we know that that has an impact on the child? So, they need the fewest moves possible—everybody agrees with that. The fewest moves possible gives a better outcome for children. If it continues to break down and a child has 10 foster carers, then, clearly, the outcome isn't going to be good."[9]

24. Dywedodd Sally Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Cyngor Dinas Casnewydd ei bod yn anodd priodoli'r canlyniadau'n uniongyrchol i wario:

> "... in terms of just equating, say, a percentage of the spend with outcome is difficult and there's also this real challenge in terms of recognising constantly that the cohort of children that we are working with are the most vulnerable and the most disadvantaged. They, quite simply, have to go through every hurdle in the world to get that point score of GCSE, to get into higher education."[10]

25. Roedd peth anghytuno ynghylch a oedd set ddata gyson yn cael ei chasglu gan awdurdodau lleol. Pwysleisiodd Sally Jenkins, er mai dim ond un dangosydd sydd ar y fframweithiau canlyniadau, nid yw'n gynrychioliadol o'r holl waith sy'n mynd rhagddo. Mae awdurdodau lleol yn:

> "... capture enormous amounts of data. ..., for the performance indicators, for parenting assessment manuals, for internal measures for the inspectorate—. And, actually, because we need it for our own analysis of the system—whatever else we're being asked for, I need to understand my children. I need to understand my population of

[9] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 172

[10] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 375

> looked-after children, and I need to do that in order to fulfil my job as a good head of service."[11]

26. Galwodd eraill am gasglu mwy o ddata neu sicrhau bod mwy o ddata ar gael. Nododd Fabric yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "More data is needed to assess the value for money in [care] services."[12]

27. Awgrymodd Rachel Thomas, sy'n cynrychioli Swyddfa'r Comisiynydd Plant nad oedd y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn dal profiadau plant a phobl ifanc. Dywedodd

> "...children generally don't feature that highly in it; there's a lot of reliance on the national survey, which is 16 plus, so that direct voice of children generally is missing. And that's something that we've fed back, but hasn't changed. So, certainly, when we raised the concept of doing the Bright Spots survey, it was against the background of the lack of data from young people directly."[13]

28. Mae'r Rhaglen Bright Spots yn bartneriaeth rhwng Coram Voice a Phrifysgol Bryste sy'n arolygu barn plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r Rhaglen yn cael ei hehangu ledled Cymru ac mae eisoes wedi'i chyflwyno mewn 22 o awdurdodau lleol yn Lloegr[14]. Fe'i disgrifir ar wefan y prosiect fel a ganlyn:

> "Although little is known about children's well-being, even less is known about the well-being of vulnerable groups such as looked after children. There are statistics and literature on looked after children's outcomes, but outcomes are only a part of well-being. Rarely have children been asked what they think matters to their well-being."[15]

29. Nod y rhaglen yw nodi a hyrwyddo polisi ac arfer sydd â dylanwad cadarnhaol ar les plant a phobl ifanc o'u safbwynt eu hunain. Croesawodd y Pwyllgor y dystiolaeth gan y Rhwydwaith Maethu bod y cynllun peilot Bright Spots bellach yn cael ei ariannu mewn chwe awdurdod lleol gan Lywodraeth Cymru.

---

[11] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 400

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 02** (Saesneg yn unig)

[13] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 194

[14] **Prifysgol Bryste, ysgol Astudiaethau Gwleidyddol, Bright Spots – arolygon "Your Life, Your Care" o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal [Fel ar 27 Medi 2018]**

[15] ibid

30. Cred y Pwyllgor fod ystod eang o wybodaeth y mae angen ei dal a'i chymharu i greu darlun yn effeithiol o ofal plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a'r effeithiau y mae gwasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus yn eu cael arnynt.

31. O ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu fframwaith canlyniadau penodol ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal yn seiliedig ar fywyd cyfan y plentyn a thu hwnt (er mwyn mynd i'r afael â'r tebygolrwydd y bydd plant y rhai hynny sydd mewn gofal yn cael eu rhoi mewn gofal hefyd). Gallai hyn gynnwys nifer o ddangosyddion, gan gynnwys nifer y symudiadau lleoliad, nifer y plant a leolir y tu allan i'r sir a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol, ond rhaid iddo ddal ac adlewyrchu safbwyntiau plant a phobl ifanc. Y cyd-destun ansoddol hwn sy'n hanfodol wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni.

> **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o ddangosyddion i asesu'r canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal ac yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r pethau hynny sy'n bwysig i bobl ifanc. Rhaid i farn pobl ifanc fod yn rhan annatod o ffurfio, llywio a gwerthuso'r rhain, a dylai gael ei lywio'n uniongyrchol gan waith y Grŵp Cynghori Gweinidogol ac unrhyw werthusiad o arolwg Bright Spots.

Yr hyn rydym yn ei wybod am ganlyniadau addysgol

32. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2012, **Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**[16] yn dod i'r casgliad bod mentrau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cyfrannu at rywfaint o gynnydd cymedrol, ond nad oedd llawer o blant sy'n derbyn gofal yn cyflawni eu potensial llawn o hyd. Dywedodd hefyd fod cynnydd yn cael ei lesteirio gan ddiffyg amcanion a gwendidau wedi'u diffinio'n glir wrth gynllunio, rheoli perfformiad a rhianta corfforaethol. Nid yw adroddiadau dilynol wedi awgrymu unrhyw welliant sylweddol o'r sefyllfa yn 2012.[17]

33. Ym mis Ionawr 2017, nododd Llywodraeth Cymru ei **Strategaeth ar godi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.**

[16] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru **Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal** (Awst 2012)

[17] Llywodraeth Cymru 2015: **Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**; Llywodraeth Cymru 2016: **Strategaeth ar godi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal**; Prifysgol Caerdydd 2016: **Exploring the educational experiences and aspirations of LAC in Wales (Saesneg yn unig)**; Estyn 2016, **Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal: adroddiad arfer orau.**

Nododd y ddogfen hon yr angen i "fonitro canlyniadau cyllid ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal" a'r angen i gryfhau trefniadau ariannu.

34. Ers 2013-14, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn Grant Datblygu Disgyblion i wella canlyniadau addysgol plant sydd wedi bod mewn gofal. Ceir manylion am ein pryderon ynghylch tryloywder cyllid Grant Datblygu Disgyblion ym Mhennod pedwar.

35. Mae strategaeth 2016 Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> "Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â chonsortia addysg rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio fel y bwriedir ac yn cael effaith wirioneddol yn gwella perfformiad addysgol y plant hyn sy'n cyd-fynd ag amcanion y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu cysylltiedig."

36. Yn 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru ICF Consulting i werthuso'r Grant Datblygu Disgyblion. Disgwyliwyd i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2018. Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi ein Hadroddiad (Tachwedd 2018), nid oedd wedi'i gyhoeddi o hyd.

37. Mae'r data isod yn dangos bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ar drothwy Lefel 2 a chyrhaeddiad disgyblion eraill, a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion. Nid yw hyn yr un mor wir gyda'r trothwy Lefel 2 cynhwysol.

Cyfraddau cyrhaeddiad trothwy Lefel 2 Plant sy'n Derbyn Gofal - Cymru Gyfan

Canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 2						
	Plant sy'n derbyn gofal	Pob disgybl	Bwlch pwynt %	Plant sy'n derbyn gofal	eFSM	Bwlch pwynt %
2011/12	29	73	**44**	29	51	**22**
2012/13	40	78	**38**	40	58	**18**
2013/14	48	82	**34**	48	65	**17**
2014/15	47	84	**37**	47	69	**22**
2015/16	56	84	**28**	56	72	**16**
2016/17	21	67	**46**	21	41	**20**

Cyfraddau cyrhaeddiad trothwy Lefel 2 cynhwysol Plant sy'n Derbyn Gofal - Cymru Gyfan

	Plant sy'n derbyn gofal	Pobl disgybl	Bwlch pwynt %	Plant sy'n derbyn gofal	eSFM	Bwlch pwynt %
2011/12	13	51	**38**	13	23	**10**
2012/13	12	53	**41**	12	26	**14**
2013/14	17	55	**38**	17	28	**11**
2014/15	18	58	**40**	18	32	**14**
2015/16	23	60	**37**	23	36	**13**
2016/17	12	55	**43**	12	29	**17**

38. Er gwaethaf y canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad Grant Datblygu Disgyblion hwn, mae'r canlyniadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn llawer is na disgyblion eraill. Mae'r data uchod yn dangos:

- Dim ond 21 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 yn 2017, o'i gymharu â 67 y cant o'r holl ddisgyblion a 41 y cant o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a
- Dim ond 12 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 cynhwysol yn 2017, o'i gymharu â 55 y cant o'r holl ddisgyblion a 29 y cant o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[18]

39. O ran tystiolaeth ansoddol, canfu astudiaeth yng Nghymru yn 2016[19]:

> "Older young people and care leavers in our study often felt that their education had not been prioritised and that their potential was not recognised by carers, teachers and social care professionals."

40. Canfu hefyd fod plant sydd wedi bod mewn gofal wedi colli allan ar addysg, gan nodi:

[18] [Mae'r mesur ar gyfer trothwy Lefel 2 yn gyfwerth â phum TGAU neu fwy, graddau A*-C, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Mae'r trothwy Lefel 2 cynhwysol yn golygu bod yn rhaid i'r 5 TGAU hyn neu fwy, neu'r cymwysterau galwedigaethol cyfatebol, gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg.]

[19] **Cascade briefing: Exploring the educational experiences and aspirations of Looked After Children and young people (LACYP) in Wales, Mawrth 2016**

> "Placement and school moves resulting in delays to starting at a new school, appointments and meetings occurring in school time were all identified by participants as making educational achievement difficult."

41. Mewn tystiolaeth lafar, clywsom fod nifer o resymau dros hyn. Dywedodd y Cynghorydd Huw David, yn cynrychioli CLlLC, o ran canlyniadau addysgol:

> "[...]if they got to school, half the time, it was a victory and, quite often, they experience quite significant developmental delay because they're not receiving any proper parenting or proper care and support, and it's very, very difficult then to close the gap, isn't it, when they've fallen so far behind, and quite often in their early years?"
>
> "[...] Any teacher and any social worker will bust a gut to try and close that gap, but it is a big gap to narrow, and sometimes when they've got additional learning needs, it's not realistic to expect them to be getting A-levels. [...] when you've been passed from pillar to post and you don't know which school you're in or which home you're in, it's difficult for them to focus on education and to have a real chance."[20]

42. Dywedodd Naomi Alleyne o CLlLC fod angen mwy o ymchwil ansoddol gan fod profiad pob plentyn o'r system addysg yn wahanol.

> "[....]it's what experiences they've had and at what point they've come into the education system with appropriate support to do that.
>
> Because you can say, 'This is the experience of a group', but that hides so many individual experiences or outcomes or the journey that an individual child has had."[21]

43. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i ganlyniadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal fod yn uchelgeisiol. Mae'n amlwg o'r ffigurau sydd ar gael bod bwlch sylweddol rhwng plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad oes llawer o werth mewn mesurau meintiol yn unig, o ystyried nifer y ffactorau amrywiol sydd dan sylw. Hoffem weld ymchwil ansoddol yn cael ei wneud i sefydlu dulliau llwyddiannus o gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal a sicrhau y gellir cydnabod eu cyflawniadau addysgol.

[20] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraffau 210-211

[21] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 179

44. Gweler Pennod pedwar am ein barn ynghylch sut y dylai arian y Grant Datblygu Disgyblion fod yn fwy tryloyw a chael ei ddefnyddio'n well.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canlyniadau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu mesur yn ôl "pellter a deithiwyd" ochr yn ochr â mesurau cyrhaeddiad, a gwerthuso effeithiolrwydd y Grant Datblygu Disgyblion i gael y canlyniadau hyn.

Y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau

45. Y **Grŵp Cynghori Gweinidogol**[22] yw olynydd Llywodraeth Cymru i'r Grŵp Llywio Strategol ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant, a oedd yn goruchwylio cam cyntaf y datblygiad tuag at ddull gweithredu cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

46. Sefydlwyd y grŵp ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Caiff ei gadeirio gan David Melding AC gan adrodd i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

47. Mae gwaith y Grŵp yn canolbwyntio ar y canlynol:

- nodi camau cynnar ac ataliol er mwyn helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal;
- gwella canlyniadau i blant sydd eisoes mewn gofal; a
- gwella canlyniadau i'r rhai sy'n gadael gofal.

48. Mae gan y Grŵp aelodaeth o dros 30 o randdeiliaid allweddol, a chawsom adborth cadarnhaol ei fod yn dwyn ynghyd chwaraewyr allweddol ac mae ganddo raglen waith gynhwysfawr.

49. Dywedodd Colin Turner, o'r Rhwydwaith Maethu:

> "...everybody's there because I think we recognise that there is a crisis in Wales, that we are struggling with diminished—. It's not our fault, but that's the situation we're in. So it's creative, it's innovative [...]"[23]

50. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch cyflymder y gwaith a strwythur y grŵp. Adleisiwyd y rhain gan y tystion. Dywedodd Naomi Alleyne, o CLlLC:

---

[22] Llywodraeth Cymru, **Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant**, [diweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2018]

[23] Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018, paragraff 97

> "In terms of the impact, it's difficult to say how effective it's been because it's delivering a number of different things and a lot of things are in train in terms of its development. So, I think it's certainly useful to bring all those partners together and to have those discussions, and have a detailed action plan that is there and is being delivered by the many partners moving forward. So, I would still say give it time to achieve what it has set out to achieve, but probably a little bit more speed in some aspects of it."[24]

51. Roedd Sally Holland yn gefnogol o ystod eang y grŵp, ac yn arbennig y ffaith ei fod yn cynnwys plant a phobl ifanc, ond roedd ganddi rai pryderon:

> "... in terms of where it's got to, it still probably needs to work more towards really identifying what outcomes will be success, how it will identify what success is. It's very easy, I think, to start working on processes rather than outcomes, but I do think that, as a group, it has improved over the last year, becoming more outcome orientated and less process orientated. The proof will be in the pudding."[25]

52. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr adran a ganlyn o dystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

> "Mae'r Grŵp wedi sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ddiweddar, sy'n gyfrifol am ddatblygu ystod o ddangosyddion sentinel sy'n gallu dangos tystiolaeth o ganlyniadau ac effaith rhaglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd y dangosyddion hyn yn cyd-fynd â fframwaith canlyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."[26]

53. O gofio bod y grŵp wedi'i sefydlu ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016, mae'n bryderus yr ymddengys ei bod wedi cymryd dros flwyddyn i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ac i bennu dangosyddion 'gwarchod'. Ymddengys bod yr amserlen hon yn arwydd o grŵp mawr sydd wedi cael tasg sylweddol a all fod yn anorchfygol.

54. At hynny, mae'r MAG mewn gwirionedd yn is-grŵp sy'n gweithio i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen MAG mewn gwirionedd yn fwy o is-grwpiau islaw'r MAG. Ymddengys i'r Pwyllgor fod y strwythur cymhleth hwn

[24] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 219

[25] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 165

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-12-18 Papur 1, 30 Ebrill 2018

ynghyd â rhannu'r gwaith yn dair ffrwd waith sy'n cynnwys 27 llinyn gwaith yn atal llywodraethu hyfyw, tryloyw a da.

55. Yn ogystal â phryderon ynghylch y MAG, rydym yn cwestiynu gallu Llywodraeth i gydweithio ar lefel strategol ar draws yr ystod o feysydd polisi sy'n uniongyrchol berthnasol i blant sydd wedi bod mewn gofal. Er enghraifft, pan holwyd Albert Heaney, swyddog Llywodraeth Cymru, ynghylch y Grant Datblygu Disgyblion, eglurodd nad oedd yn gallu gwneud sylw oherwydd:

> "...we're not the officials responsible for the pupil development grant. So, it's not that I'm trying to be evasive, but we don't lead on that policy side."[27]

56. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod swyddogaethau gweithredol wedi'u gosod ar y MAG. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod hyn wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â nifer o faterion heriol, mae perchnogaeth ac atebolrwydd y rhaglen waith yn aneglur, yn ogystal â faint o ymgysylltiad sydd gan Lywodraeth Cymru yn ei waith.

57. Credwn fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gormod o bwyslais ar y MAG i fod yn gorff cyflawni - pan mewn gwirionedd dylai ei brif rôl fod yn ymwneud â her a chyngor. Nid oes gan y grŵp hwn unrhyw atebolrwydd uniongyrchol, ac mae'n aneglur sut y mae'n adrodd i'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth gyhoeddus am y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael ei gwella ar wefan Llywodraeth Cymru i gynyddu atebolrwydd a chaniatáu gwaith craffu. Rydym yn argymell, fel isafswm, y cyhoeddir y canlynol:

- Aelodaeth;
- Cofnodion cyfarfodydd;
- Pherfformiad yn erbyn dangosyddion.

[27] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 143

3. Gwario ar leoliadau

Cymerwyd golwg gychwynnol ar gost gyffredinol a gwerth am arian y lleoliadau sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, yn benodol addasrwydd, cost ac argaeledd lleoliadau.

Pam mae hyn yn bwysig?

58. Mae hwn yn faes hollbwysig oherwydd y gwariant sylweddol ar leoliadau fel canran o'r gwariant ar ofal plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

- Dengys data ar wariant refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol ar wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, rhwng 2011-12 a 2016-17, bod y gwariant wedi cynyddu 19.1 y cant i £256 miliwn yn 2016-17;
- Yn 2016-17, gwariwyd y gyfran fwyaf ar wasanaethau maethu (45.6 y cant), ac ar ofal preswyl (25.5 y cant) a gwasanaethau cymorth gadael gofal (8.1 y cant);
- Yn y pum mlynedd diwethaf mae saith awdurdod lleol wedi lleihau eu gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal tra bod y 15 arall wedi cynyddu eu gwariant;
- Canfu'r Pwyllgor ei bod hi'n anodd cymharu'r wybodaeth am wariant. Er enghraifft, gan edrych ar y data dros gyfnod o bum mlynedd, Sir Fynwy oedd â'r cynnydd mwyaf (105.9 y cant) tra yr ymddengys bod gan Wrecsam y gostyngiad mwyaf (-30.3 y cant) yn y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, awgrymodd y dystiolaeth ysgrifenedig atodol gan CLlLC ym mis Ebrill 2018 nad oedd ffigurau Wrecsam yn gywir oherwydd "rhai newidiadau dosbarthu yn y gwasanaeth" sy'n "ystumio'r gyfres amser data ac nad yw'n adlewyrchu'r gwir ddarlun";
- Nid oedd tystiolaeth CLlLC yn nodi'r newid gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal, ac nid yw'r lefel hon o ddryswch yn ddefnyddiol i ddeall yr heriau; ac
- Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi bod lleoliad awdurdod lleol yn costio £23,327 ar gyfartaledd o'i gymharu â lleoliad asiantaeth annibynnol, sy'n costio £43,378 y flwyddyn.

59. Mae'r rhan fwyaf o wariant awdurdodau lleol ar leoliadau a chlywsom dystiolaeth gymhellol gan y bobl ifanc y buom yn siarad â hwy ynghylch effaith symud lleoliadau'n aml. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r arian hwn yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n darparu canlyniadau da i blant a phobl ifanc. Nid yw'n eglur i ba raddau y mae'r canlyniadau ar gyfer plant yn cael eu gwella gan leoliadau mwy drud.

60. Mae'r rhain yn symiau mawr o arian, ac mae'r patrwm gwariant yn awgrymu amrywiadau sylweddol mewn arfer rhwng awdurdodau lleol. Fel Pwyllgor, nid ydym yn argyhoeddig bod arian yn cael ei wario yn y ffordd orau i sicrhau bod plant sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn.

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym:

“I think that is the most important thing for young people, to feel as if they belong to a family.”

“Self-esteem, self-worth, feeling included and just having someone that you can rely on and someone who will support you and will look after you.”

“I have had 14 different placements in a year.”

“Last year I moved 20 times alone.”

“I had been at the placement for four, five years, and then all of a sudden my social worker turned up on the Friday and was like, ‘You’re being moved on Monday’.”

I ba gasgliadau y daethom?

Lleoliadau

61. Dywedodd pobl ifanc wrthym am yr effaith andwyol y mae symud lleoliadau yn ei gael arnynt, a bod yr angen am sefydlogrwydd yn hanfodol i blant sydd eisoes wedi wynebu aflonyddwch a newid sylweddol. Clywodd y Pwyllgor fod prinder sylweddol o ran lleoliadau awdurdodau lleol. Mae hyn wedi arwain at awdurdodau lleol yn chwilio'n wyllt am leoliadau ac, yn ei hanfod, yn cymryd beth bynnag sydd ar gael, yn hytrach na'r hyn sydd fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae hyn yn golygu lleoliadau nad ydynt yn diwallu anghenion y plentyn ac efallai eu bod mewn perygl uwch o dorri i lawr.

62. Amlygodd y dystiolaeth gan Plant yng Nghymru, nid yn unig y mae lleoliadau lluosog yn cael effaith niweidiol ac aflonyddgar ar y plant, ond maent hefyd yn gostus i awdurdodau lleol:

> "To illustrate this point, research by Demos (2010)[28] has shown that a child experiencing multiple placements over 4½ years (Child A) can cost a local authority 12% more than a child in a stable placement over 14 year (Child B)
>
> Child A
>
> - Total cost (long term foster care) = £352,053 for 14 years (£23,470 per year)
>
> Child B
>
> - Total cost (3 periods in care in 10 placements) = £393,579 for 4.5 years (£56,226 per year)."[29]

63. Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth Llywodraeth Cymru:

> "Er ein bod yn casglu data yn genedlaethol o ran sawl gwaith y bydd plentyn yn symud lleoliad, nid ydym yn casglu gwybodaeth am addasrwydd lleoliadau ar gyfer pob plentyn na gwybodaeth ynghylch a yw lleoliad yn diwallu anghenion plentyn yn llawn. Mae'n wybodaeth fanwl a fydd yn rhan o'r broses gynllunio ac adolygu gofal ar gyfer pob plentyn, a bydd ar gael ar lefel awdurdodau lleol. Mae Arolygiaeth Gofal

[28] Demos, **In Loco Parentis**, To deliver the best for looked after children, the state must be a confident parent. [Fel ar 27 Medi 2018]

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 06**

> Cymru wrthi'n cynnal adolygiad thematig o wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, a bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau plant a phobl ifanc, gan gynnwys addasrwydd lleoliadau. Disgwylir iddi gyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2019."[30]

64. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor fod y system lleoliadau presennol yn werth gwael am arian. Nid oes digon o leoliadau sy'n arwain at roi rhai plant mewn lleoliadau amhriodol ble mae lle gwag yn hytrach nag yn y lle iawn i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Nid yw hyn er eu lles gorau, ni fydd yn sicrhau'r canlyniadau cywir iddynt ac nid yw'n ddefnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Byddwn yn ystyried canfyddiadau gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru pan gaiff ei gyhoeddi fel rhan o'n hymchwiliad hirdymor.

Lleoliadau Awdurdod Lleol o gymharu â Lleoliadau Asiantaethau Annibynnol

65. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi bod lleoliad awdurdod lleol yn costio £23,327 ar gyfartaledd o'i gymharu â lleoliad asiantaeth annibynnol, sy'n costio £43,378 y flwyddyn.

66. Dywedodd Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru wrthym fod lleoliadau awdurdodau lleol, yn rhifol, yn ffurfio dwy ran o dair o leoliadau a bod lleoliadau asiantaeth annibynnol yn cyfrif am un rhan o dair, ond mae'r ddwy ran o dair yn costio traean o gost y rhai annibynnol.[31]

67. Dywedodd Sally Holland wrth y Pwyllgor:

> "We had children saying to us things like, 'I feel a bit like a commodity because I know that people are actually bidding to offer me a placement.' So there's that principle point that children felt uncomfortable knowing that profit could be made out of their distress and need for care."[32]

68. Gwnaeth bwynt pellach am werth am arian, gan nodi:

> "I'm concerned, as I think we all should be, about the very, very high costs of private placements and the fact that the supply is so low that it's not so much a marketplace as local authorities trying to find a placement that will meet this child's needs, almost whatever the cost. I

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, **PAC(5)-16-18 PTN2**, 11 Mehefin 2018.

[31] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 43

[32] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 23

> feel sure that, with better commissioning and better planning, we could provide not-for-profit—it doesn't always have to be by the state—services that can meet these children's needs."[33]

69. Eglurodd Irfan Alam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Cyngor Dinas Caerdydd, yr her sy'n wynebu'r awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliadau gan roi'r enghraifft a ganlyn:

> "...52 searches for one young person between Monday and Wednesday. There were no placements for this young person at all. We finally found a placement in Essex at £11,500 a week. By the time I rang the provider to understand why it was £11,500, that placement had already been snapped up within 15 minutes by another local authority. So, it is routine. Some of our most complex young people, on average, cost around £6,500 a week, and these are bespoke-type placements, so single placements, for example. These are children who are probably just below the cusp of secure orders."[34]

70. Clywodd y Pwyllgor nifer o enghreifftiau am yr amrywiad yng nghostau lleoliadau annibynnol. Eglurodd Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y gall y gost gyfartalog fod yn unrhyw beth rhwng £3,000 a £5,000 yr wythnos am leoliad preswyl, ond y bydd rhai o'r costau hyn yn llawer uwch na hynny.

71. Ar adeg cymryd tystiolaeth (Chwefror 2018) roedd gan Gaerffili y gost lleoliad uchaf, sef £16,500 yr wythnos. Cawsom wybod nad oes modd addasu na gwneud iawn am yr amgylchiadau eithafol hynny ac felly mae'r arian hwn yn dod o'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol cyffredinol. O ganlyniad i hyn, roedd gan Gyngor Sir Caerffili orwariant o £860,000 am y flwyddyn ac roedd yn y broses o sefydlu cyfleuster newydd yng Nghaerffili oherwydd yr un lleoliad hwn.[35]

72. Mae'r Pwyllgor yn deall bod y defnydd o asiantaethau annibynnol yn aml yn digwydd lle mae gan blant anghenion ychwanegol neu y mae angen eu lleoli y tu allan i'r sir, ac felly ni fyddai cymhariaeth uniongyrchol, megis dweud eu bod yn costio ddwywaith cymaint, yn gywir nac yn briodol. Serch hynny, mae gwahaniaeth amlwg yn y gost o hyd ac nid ydym wedi gallu sefydlu beth yw'r lefelau elw yn yr achosion hyn. Credwn ei fod yn hanfodol deall hyn er mwyn

[33] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 24

[34] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 309

[35] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 306

caniatáu mwy o ddealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan y system ar hyn o bryd.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad o gostau lleoliadau asiantaethau annibynnol, gan archwilio'r canlyniadau gwahanol a gyflwynir ar draws oes plentyn am y gost ychwanegol er mwyn creu sail dystiolaeth wybodus ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol yn y maes hwn.

Prinder lleoliadau

73. Ar ôl clywed tystiolaeth gan bobl ifanc, roedd y Pwyllgor yn awyddus i edrych ar brinder lleoliadau parhaol addas a'r effaith a gaiff hyn ar nifer y lleoliadau y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu.

74. Dywedodd Colin Turner, o'r Rhwydwaith Maethu:

> "The reality is that I don't believe that anybody, at any one time, truly understands where all the vacancies are; where the particular pressures are on individual placements in individual communities. We know that there's a shortage for sibling groups, for parent and child placements, and for placements for children with disabilities."[36]

75. Galwodd am i ddarparwyr annibynnol, y sector elusennol ac awdurdodau lleol weithio'n fwy cydweithredol i nodi anghenion lleoliadau plant o fewn awdurdodau ac ar draws rhanbarthau a chydgynhyrchu gwasanaethau, gan ddweud:

> "[...]this is about outcomes for children, not about who's making the most profit. It's about who can provide consistent quality care to the most vulnerable children in Wales."

76. Awgrymodd y gellid creu cofrestr genedlaethol sy'n rhestru'r holl ofalwyr maeth a chyfraddau'r lleoedd gwag. Os gwneir hyn ynghyd â dadansoddiadau o anghenion lleol, dywedodd:

> "[...] when we were actually embarking on recruitment campaigns for foster carers at least we could be targeting those foster carers for the children where there's a demand in local areas."[37]

[36] Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018, paragraff 12

[37] Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018, paragraff 12

77. Nododd Naomi Alleyne fodel a awgrymwyd yn seiliedig ar yr hyn sydd ar waith ar gyfer olrhain darpar fabwysiadwyr drwy'r gwasanaeth mabwysiadu:

> "What's really useful through the adoption service at the moment is that they're actually able to track how many adopters have been there in terms of the needs from children[...] it's useful to track that so that we've got a much better idea about what's needed in terms of numbers moving forward, and, actually, actions can then be taken to recruit, hopefully, the people who are there."[38]

78. Clywodd y Pwyllgor fod prinder lleoliadau difrifol sy'n arwain at ddiffyg dewis. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn gofal preswyl arbenigol. Er enghraifft, nododd Kate Devonport o Gyngor Sir Conwy esiampl lle:

> "... over a three-week period, over 70 resources were exhausted across the whole of the UK and we still had nowhere in the whole of the UK that would take a young lady with that sort of behaviour [parasuicide]. That's quite terrifying. These are our most vulnerable young people and we do not have a resource in Wales."[39]

79. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "Weithiau bydd angen rhoi plentyn mewn trefniant dros dro neu drefniant brys cyn dod o hyd i leoliad mwy addas a hirdymor. Er enghraifft, efallai y bydd angen rhoi plenty mewn cartref plant nes bod lleoliad maethu addas ar gael, neu efallai y bydd angen rhoi plentyn sydd i'w fabwysiadu gyda rhieni maeth nes y deuir o hyd i fabwysiadwr addas."[40]

80. Cyfeiriodd Alistair Davey, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, at waith sydd eisoes yn mynd rhagddo:

> "... the national fostering framework, which is very much looking at commissioning and placement costs. We know that it costs almost double for an independent fostering placement, as compared to a local authority placement. So, we're looking at a national marketing plan, national training, so we've got to look at how do we recruit and better

[38] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 165

[39] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 367

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, **PAC(5)-16-18 Papur i'w nodi 2**, 11 Mehefin 2018

> retain our foster carers in Wales, because, obviously, there's a big shift there and saving that we can make to reinvest elsewhere."[41]

81. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru y Pwyllgor at y **Dadansoddiad o ganlyniadau plant a phobl ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018. Roedd yn edrych ar wybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â lleoliadau ar gyfer 1,076 o blant a phobl ifanc sydd â Gorchymyn Gofal terfynol a wnaed yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 12 mis o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2013. Ei nod oedd edrych ar y canlynol:

- Y teithiau o ran lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r canlyniadau a geisiwyd yn eu Cynllun Gofal.
- Y ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lleoli mwy cadarnhaol ar gyfer plant sydd â Gorchymyn Gofal.

82. Mewn perthynas â lleoliadau, canfu'r astudiaeth hon y canlynol:

> "Over three quarters of the whole cohort of children experienced a high level of placement stability – with either none (30%) or only one (46%) placement move from the time of the full Care Order in 2012-2013 until 31 March 2017. This was particularly the case for younger children aged 0-4 or 5-9 years at the time of the Care Order. Older children, particularly those aged 10-15 years, were likely to experience a greater number of placement moves – an average of 2.17 moves."

83. Aeth ymlaen i wneud yr argymhelliad a ganlyn:

> "There is increased availability of high quality long-term foster care placements which, in turn, ensure children experience timely (including first time) for ever placements that are more likely to meet their needs."

84. Tynnodd Albert Heaney sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â grŵp gorchwyl a gorffen ar ofal preswyl fel rhan o'r Grŵp Cynghori Gweinidogol. Dywedodd ei fod yn edrych ar faterion, gan gynnwys:

> "Do we have the right level and do we have the therapeutic support, which isn't just what a social worker should do—it's the type of support that goes in around that child and young person. So, where children

[41] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 33

> sometimes move through and escalate in terms of concerns, it is looking at the models in terms of our residential provision."[42]

85. Nodwn fod tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ein hymchwiliad yn y cynllun gwaith MAG ar gyfer lleoliadau, ac mae'n gosod terfyn amser o 2020:[43]

> "Mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar strategaethau lleoli a chomisiynu a bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn dymuno ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor."

86. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw hyn yn ddigonol ac yn annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran lleoliadau mewn modd rhagweithiol, gyda'n myfyrdodau yn gallu helpu hyn mewn pryd. Gallai gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru ddarparu sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer gwaith y MAG. Felly, cawsom ein synnu nad yw'r ffrwd waith hon yn adlewyrchu gwaith adolygiad thematig Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn gobeithio bod hyn wedi'i ddiwygio erbyn hyn.

87. O ystyried y tensiwn sy'n bodoli gyda diffyg lleoliadau, sy'n cyfyngu'n ddifrifol ar ddewis, mae cwestiynau ynghylch sut y gellir asesu ansawdd y lleoliadau hyn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo'r lleoliadau hynny y tu allan i Gymru lle mae gan awdurdodau lleol Cymru lawer llai o arolygiaeth.

88. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn credu y gallai fod angen sefydlu fframwaith ar gyfer asesu ansawdd lleoliadau yn seiliedig ar anghenion plentyn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o waith Arolygiaeth Gofal Cymru a byddwn yn edrych eto ar y maes hwn yn ddiweddarach yn y cynulliad ar ôl ystyried y canfyddiadau hynny.

Adolygiadau diwedd lleoliadau

89. Pwysleisiodd Kate Lawson o'r Rhwydwaith Maethu fod angen adolygiadau "diwedd lleoliad" systematig i ddeall yn well pam mae plant yn cael eu symud a bod lleoliadau'n dod i ben. Dywedodd:

> "...feedback from our helplines and feedback through our state of the nation clearly shows that that placement review isn't systematically taking place before the end of the placement to fully understand

[42] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 121

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-12-18 Papur 1, 30 Ebrill 2018

> whether the placement is ending in the child's best interests, and that there aren't any other financial motives or other things at play there."[44]

90. Clywodd y Pwyllgor bryderon tebyg gan yr ystod o bobl ifanc y gwnaethom siarad â hwy. Gwnaethant roi tystiolaeth cymhellol ynghylch cael gwybod eu bod yn cael eu symud, heb rybudd a heb ddeall pam. Gwnaethant ddweud wrthym am yr effaith negyddol sylweddol y mae hyn wedi'i chael arnynt a'i fod yn tanseilio'r siawns o sicrhau canlyniadau da yn yr hirdymor.

91. Mae adolygiadau diwedd lleoliad yn rhan hanfodol o'r broses i helpu'r plentyn i ddelio â'r amhariad o symud lleoliad - mae'n hanfodol cofio bod diwedd lleoliad yn ddiwedd perthynas, a all gael effaith sylweddol ar bobl. Maent hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau awdurdodau lleol yn cael eu gwneud er budd gorau'r plentyn unigol yn hytrach nag oherwydd cymhellion ariannol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o amlder ac effeithiolrwydd yr adolygiadau diwedd lleoliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith adolygiadau o'r fath ar y plentyn dan sylw.

Modelau comisiynu a recriwtio

92. Tynnodd y Comisiynydd Plant sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y risg bosibl i'r cyflenwad sydd eisoes yn gyfyngedig yn golygu na fyddai newid tuag at fodel di-elw yn gyflawnadwy dros nos, oherwydd:

> "a direction that the Social Services and Well-being Act expected us to go with our care services, and I haven't really seen that happening yet it in these services."[45]

93. Pwysleisiodd y Comisiynydd Plant hefyd y gallai fod yn fwy effeithlon ac effeithiol comisiynu ar sail ranbarthol neu o bosibl yn genedlaethol, gan fod llawer o'r 22 o awdurdodau lleol mewn trafferthion:

> "... trying to find very highly specialised placements for small numbers for whom they cannot provide for their needs in-house. So, the work that's going on now under the ministerial advisory group, I hope, will lead towards more regional and even, where necessary, national

[44] Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018, paragraff 54

[45] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 29

> planning and commissioning of highly specialised services, because there are some very distinct shortages for distinct needs."[46]

94. Mynegodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Reolwyr Tîm Troseddu Ieuenctid Cymru bryderon fel a ganlyn:

> "A high percentage of budgets are spent on children placed within profit making organisations. There is limited availability of placements that can deliver a therapeutic needs led service. Money "invested" in other placements can yield little by way of positive outcome and become counter- productive often resulting in placement breakdown and greater costs incurred. It is acknowledged that a lot of effort is now concentrating on avoiding children becoming looked after but numbers remain high. Once accommodated by a local authority, placements are often out of county making access to services and a return home more difficult."[47]

95. Eglurodd Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fod camau blaenorol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn drwy Gonsortiwm Comisiynydd Plant Cymru[48]. Ei nod yw gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a sicrhau gwerth am arian drwy weithio ar y cyd. Dywedodd:

> "All of the local authorities are signed up to that [Children's Commissioning Consortium Cymru]. It has worked really hard to bring in a framework cost for each placement, depending on the variables within that. So, a foster placement will cost x amount and residential will cost x amount, and providers get on to that framework so, in effect, we're all paying the same thing."[49]

96. Hefyd, y dylai hyn gael gwared ar y gystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol gan y byddai pawb yn talu'r un faint ac yna'r unig opsiwn fyddai rhwng gweithio i awdurdod lleol neu'r sector annibynnol.

97. Amlygodd mai'r cyfyngiad i'r fframwaith oedd:

---

[46] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 32

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 03**

[48] Consortiwm o awdurdodau lleol Cymru sy'n cydweithio mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

[49] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 271

> "...that we have difficult-to-place challenging young people, whom providers refuse to take unless we pay additional costs for them."[50]

98. Awgrymodd Kate Lawson o'r Rhwydwaith Maethu fod y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau yn seiliedig ar wneud asesiadau unigol o ansawdd uchel ar beth yw anghenion y plentyn hwnnw. Yn ei dro, mae'n darparu'r sail ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth a'r trefniadau comisiynu. Dywedodd y gallai fod angen mwy o oruchwyliaeth genedlaethol na'r datganiadau digonolrwydd hynny a bod gwaith cynllunio yn cael ei wneud ar lefel leol.[51]

99. Amlygodd Sally Jenkins fod Consortiwm Comisiynydd Plant Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith cadarnhaol o ran meithrin dealltwriaeth a rennir o gostau, ac edrych ar sut i sicrhau bod fframwaith priodol ar gyfer caffael cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n sicrhau bod pob darparwr yn cael ei asesu'n gywir ac y caiff ei ansawdd ei sicrhau. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod angen mwy o gapasiti i gyflawni hyn:

> "In an ideal world, you'd have a range of providers in front of you and you'd choose. We're actually in the opposite position at the moment."[52]

100. Er bod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn cael ei groesawu ac mae ei angen yn fawr, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen cymryd camau llawer mwy penderfynol. Rydym yn cytuno â honiad y Comisiynydd Plant y dylai pawb fod yn poeni am:

> "...the very, very high costs of private placements and the fact that the supply is so low that it's not so much a marketplace as local authorities trying to find a placement that will meet this child's needs, almost whatever the cost. I feel sure that, with better commissioning and better planning, we could provide not-for-profit—it doesn't always have to be by the state—services that can meet these children's needs."[53]

101. Credwn fod angen dadansoddiad llawn o ddarpariaeth lleoliadau. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yn llawn y fframwaith ar gyfer gwasanaethau y mae plant yng ngofal awdurdod lleol yn eu derbyn. Mae angen ystyried y model ar gyfer Cymru a chydnabyddiaeth bod pobl ifanc yn cael eu cydnabod fel dinasyddion ac nid cleientiaid. Rydym yn cytuno'n llwyr ag argymhelliad y

[50] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraffau 272-273

[51] Cofnod y Trafodion, 12 Chwefror 2018, paragraff 53

[52] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 355

[53] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 24

Comisiynydd Plant yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17 sy'n nodi fel a ganlyn:

> "Gofal Preswyl: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau nid-erelw fel bod modd gwario arian a fuddsoddir mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar wella canlyniadau i blant yn hytrach na darparu enillion i randdeiliaid."[54]

102. Roeddem yn siomedig iawn i ddarganfod bod adroddiad y Comisiynydd Plant ar gyfer 2017-18 wedi canfod nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu o gwbl yn hyn o beth.

103. Nid oes digon o leoliadau yng Nghymru. Mae hwn yn fater anodd i fynd i'r afael ag ef gan fod y niferoedd yn amrywio'n barhaus, ond mae angen i'r dull a gymerir fod yn strategol ac yn gydweithredol er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf ac yn y pen draw, y canlyniad gorau i'r rhai sydd o fewn gofal awdurdodau lleol. Mae'n anymarferol bod awdurdodau yng Nghymru yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, heb unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r lefelau elw sy'n cael eu gwneud.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen ar gyfer dadansoddi darpariaeth lleoliadau. Ni fyddem yn disgwyl i'r gwaith hwn gymryd mwy na thri mis i'w ddechrau ac iddo gael ei gyflwyno o fewn deuddeng mis. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y dylid darparu gwasanaethau yn unol ag uchelgais y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yna gallai lywio strategaeth genedlaethol ar gyfer comisiynu a rheoli'r sbectrwm llawn o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

[54] Comisiynydd Plant Cymru, **Adroddiad Blynyddol 2016-17** [Fel ar Tachwedd 12 2018]

4. Cyllid tryloyw

Gwnaethom ystyried a yw gwariant sy'n benodol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn ddigon tryloyw ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus.

Pam mae hyn yn bwysig?

104. Mae'n anodd iawn nodi'r cyllid perthnasol ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal mewn meysydd gwasanaeth hanfodol megis addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a thai. Mae perygl mai dim ond gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu hystyried yn atebol am ganlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

105. Mae amrywiad heb ei egluro o ran gwariant gwasanaethau cymdeithasol ar blant sydd wedi bod mewn gofal mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae'n debyg nad oes unrhyw waith monitro yn cael ei wneud i asesu a yw'r awdurdodau lleol sy'n gwario mwy yn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant y maent yn gofalu amdanynt. Gwariwyd £64,421 gan Gaerdydd ar bob plentyn sy'n derbyn gofal yn 2016-17, ac mewn cyferbyniad, gwariodd Sir Ddinbych £27,208 ar bob plentyn sy'n derbyn gofal. Cyfartaledd y gwariant yng Nghymru oedd £45,302 ar bob plentyn sy'n derbyn gofal.

106. Dywedodd cynrychiolwyr Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan fod ymrwymiad ariannol awdurdodau lleol i blant sy'n derbyn gofal yn dod, yn gyflym iawn, yn anghynaliadwy a'i fod ar fin chwalu. Pan holwyd swyddogion Llywodraeth Cymru, cawsom wybod nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol pe bai'r sefyllfa hon yn parhau.

107. Mae dros £7 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i dargedu at blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd ar ffiniau gofal, wedi'i symud i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2018-19. Bydd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddyrannu i wasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

108. Dyrennir £1,150 fesul disgybl i'r Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn 2018-19, dyrannwyd £4.5 miliwn yn seiliedig ar y ffaith bod 3,907 o blant wedi'u cofrestru fel rhai sy'n derbyn gofal. Gellir gwario'r elfen hon o'r Grant ar blant mabwysiedig hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r swm gwirioneddol (£4.5 miliwn) wedi'i newid i gyfrif am y 3,000 a'r 3,500

amcangyfrifedig o ddisgyblion a fabwysiadwyd sydd hefyd yn gymwys ar gyfer y rhan hon o'r dyraniad o'r Grant Datblygu Disgyblion.

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym:

A worker accompanying young people told the Committee that:

> ***"It's a concern to children themselves. So, I've had children saying to me several times over the last year, 'We're quite upset that people can make a profit out of our care and out of our distress'. They don't like the fact that they are individually tendered—and they know this. I find it astounding that they have to share it with them, but for some individual children, local authorities may have to approach up to 80 potential providers—or 100 providers—to try to get a placement for them. They have to put out a profile of the child. It isn't a tendering process to individual providers. Children, quite naturally, find that really quite disturbing, and the fact there's a profit made out of them."*** [124]

I do feel that sometimes we're not told things because it saves them money for other stuff. When I was in school, my social worker said she would sort out a maths tutor for me to help me get my maths. She said this at the start of the year. As soon as we found out my exam dates, we told her. Then, I did my exam, still no tutor. She then phoned me after the exam and said, 'We've sorted a maths tutor out for you.' And it's like, 'Well, it's a bit late now. You've

124 Public Accounts Committee, Private session, 12 February 2018

had the whole school year to do it, and now you've done it after the exam, which is now saving you money because I no longer need that maths tutor.'

If your friends are going on a trip somewhere and your counsellor says, 'No, you can't go because it'll cost too much money', then it makes you feel as if you're worth less than your own friends. I don't think that's right at all.

In response to the question, 'Do you feel like a commodity?' The three witnesses all responded: **Yes**

"We need love and care not to pay their rent."

We often talk about the financial cost of moving children from one place to the other for the local authorities, but what is the cost for the young person who's having to move around in terms of the displacement, in terms of their education achievements, in terms of their health, and just in terms of their social network, and meeting different friends, moving around, at very short notice. We can't put a price on those sorts of things, but they're lasting damage for many young children who go through the system.

I ba gasgliadau y daethom?

Tryloywder y gwariant ar blant sydd wedi bod mewn gofal

109. Mae llawer o'n hadroddiad yn canolbwyntio ar wariant gwasanaethau cymdeithasol ar blant sy'n derbyn gofal gan eu bod yn ddarparwr allweddol o wasanaethau i blant sydd ar ffiniau gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal. Mae diffyg dyraniadau a gwariant tryloyw mewn meysydd gwasanaeth allweddol eraill megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Tai ac Addysg (ar wahân i'r Grant Datblygu Disgyblion) yn ei gwneud yn eithriadol o anodd asesu a yw'r gwariant yn y meysydd gwasanaethau hyn yn sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.

110. Dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor y dylai asesiadau rheolaidd o effaith prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol ac economaidd ar hawliau plant gael eu cynnal a'u cyhoeddi, ac y dylai llinellau'r gyllideb ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig neu fregus gael eu diffinio'n glir. Mae'n dweud y dylai hyn gynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn ogystal â'r plant hynny a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ymuno â'r system ofal, gan gynnwys plant ag anghenion gofal a chymorth (gwariant ataliol).

111. Mae **proses Llywodraeth Cymru** i asesu'r effaith ar hawliau plant yn cynnwys cwblhau templed, sy'n annog swyddogion i ystyried cwestiynau allweddol yn ymwneud â dadansoddi effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc, a nodi a yw'r cynnig yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant. Mae gan **Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb** (BAGE) Llywodraeth Cymru rôl hefyd yn rhoi cyngor, cefnogaeth a her i wella ystyriaethau cydraddoldeb y broses gyllidebol. Ar gyfer cyllideb 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio **asesiad effaith integredig strategol** i ategu ei phenderfyniadau i ddyrannu adnoddau.

112. Rydym yn glir bod yn rhaid i wariant fod yn fwy tryloyw a bod cyfrifoldeb cyfunol gwirioneddol yn yr ethos bwriadedig o "rianta corfforaethol." Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod pump yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o wariant ar blant sy'n derbyn gofal ar draws yr ystod o wasanaethau sy'n rhan o'u gofal, er enghraifft addysg, tai a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr o'r arian a fuddsoddir i gefnogi'r grŵp hwn.

System mewn argyfwng?

113. Dywedodd y Cynghorydd Geraint Hopkins wrthym fod awdurdodau lleol mewn argyfwng. Yn ychwanegol at hyn, roedd un o'r datganiadau mwyaf nodedig a glywodd y Pwyllgor drwy'r ymchwiliad hwn gan y Cynghorydd Huw David, a ddywedodd wrthym fod ymrwymiad ariannol awdurdodau lleol i blant sy'n derbyn gofal wedi dod yn anghynaladwy.

114. Mae gwariant wedi codi 65 y cant mewn 10 mlynedd, sy'n gynnydd o 35 y cant mewn termau real. Awgrymodd y Cynghorydd Huw David fod hyn yn:

> "...a long-term increase in the number of children who we're having to take into care, because they have been the victims of abuse or neglect. It's obviously a last resort for any authority; it's not a decision we take lightly. It's not a decision we take on our own—it's a decision that, obviously, we take to the courts, and routinely and unfortunately what the courts are telling us is not that we shouldn't be taking any of these children into care, it's that we haven't taken them into care soon enough..."[56]

Amrywiad yng ngwariant gwasanaethau cymdeithasol

115. Mae ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos amrywiad sylweddol mewn gwariant fesul plentyn sydd wedi bod mewn gofal rhwng awdurdodau lleol. Eglurodd y Cynghorydd Geraint Hopkins fod amrywiadau yn dibynnu'n fawr ar sefyllfaoedd unigol a chymhlethdod yr achos i benderfynu ar y gost. Eglurodd y Cynghorydd Huw David fod cymariaethau'n anodd oherwydd:

> "...in different parts of Wales, different services are in different directorates, if I can use that term. So, it might be that the early help and intervention spend in Wrexham is in a different part of the council and therefore hasn't been counted in that expenditure. So, we will go back and we will check that. To be fair to Monmouthshire, it depends, if you started from a—. Because, historically, I think there have been very low levels of looked-after children in Monmouthshire, and it may be that, historically, there have been high levels in Wrexham, because there has been that—. You know, there are differences across Wales."[57]

116. Cydnabu Albert Heaney, swyddog Llywodraeth Cymru, yr amrywiad:

[56] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 46

[57] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 101

> "As a senior official, working for Welsh Government, I think this is one of the most critical issues facing us; it is a real pressure point for local authority social services."[58]

117. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod sawl elfen sy'n ffurfio gwariant ac ystod o ffactorau sy'n achosi gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol. Fodd bynnag, credwn fod angen deall yr amrywiaethau sylweddol rhwng awdurdodau lleol yn well. Bydd casglu data ar yr amrywiadau yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i ddeall gwariant cymharol a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o sefydlu a yw'r gwerth gorau am arian yn cael ei gyflawni, ac yn bwysicaf oll, gwella gwariant.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad cymharol o'r amrywiaeth mewn gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal rhwng awdurdodau lleol i ddatblygu sylfaen o wybodaeth ynghylch amrywiaeth costau i annog arfer da. Dylai hyn hefyd adlewyrchu'r canlyniadau o fewn pob awdurdod a chael ei gyhoeddi ar ôl ei gwblhau. Dylai fod yn ymarfer casglu gwybodaeth rheolaidd ac ar ôl cwblhau hyn ar gyfer y cyfnod 2018-19, dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r wybodaeth a gafwyd, a nodi amserlen ar gyfer casglu gwybodaeth yn y dyfodol.

Symud arian wedi'i neilltuo i'r Grant Cynnal Refeniw

118. Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd y byddai £8 miliwn o gyllideb ôl-ddilynol i gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "Defnyddir y cyllid i leihau nifer y plant a dderbynnir i ofal ac i wella 'r canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal drwy fuddsoddi £5 miliwn i ehangu gwasanaethau ar ffiniau gofal awdurdodau lleol; £850,000 i ledaenu prosiect Reflect ledled Cymru. Nod y prosiect yw lleihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal drwy chwalu'r cylch ailfeichiogi ac achosion gofal dro ar ôl tro; £1.625 miliwn i helpu'r rhai sy'n gadael gofal gael dyfodol llwyddiannus a byw'n annibynnol drwy ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth cynghorwyr personol hyd at 25 oed, £400,000 i roi'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar waith a £125,000 i ddatblygu gwaith cymorth mabwysiadu."[59]

[58] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 38

[59] CYPE(5)-32-17 P1, 22 Tachwedd 2017: **Papur cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19**

119. Mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw o fis Ebrill 2018. Dyma'r grant cyffredinol y mae awdurdodau lleol yn ei gael gan Lywodraeth Cymru am ei holl wasanaethau ac felly mae'n golygu y gall awdurdodau lleol bellach benderfynu gwario'r arian ychwanegol hwn ar ei flaenoriaethau ei hun. Mae hyn yn syndod gan fod papur cabinet Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017 yn nodi bod yr arian wedi'i anelu at helpu i ddatblygu'r rhaglen newid tair blynedd sy'n bennaf yn lleihau'r niferoedd sy'n mynd i mewn i'r system ofal.[60]

120. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd y Comisiynydd Plant bryderon ynghylch ymgorffori cyllid Grant yn y Grant Cynnal Refeniw ar ôl y cyfnod cychwynnol, yn enwedig oherwydd:

> "Grant funding is also subject to reporting requirements to ensure that money is being spent in accordance with the stated aims and outcomes; once the money forms part of the RSG there is no requirement on local authorities to continue to fund that particular piece or work or priority area. Whilst I recognise that elected members at a local level need to retain a level of control over priorities for funding, and accountability back to citizens in their area, there are some recent policy changes that may be at risk of discontinuance if not backed up by statutory requirements."[61]

121. Dywedodd Sally Jenkins er y cafodd y dyraniad hwn ei groesawu'n fawr, mai'r pryder i Benaethiaid Gwasanaeth oedd, er eu bod yn:

> "...absolutely recognise that the control needs to sit with the local authorities, but it's also how do we ensure that that money, which has clearly been designated to be spent in children's services, can be spent there against that backdrop of other cuts. That's been really difficult for many of us. I think, by and large, local authorities have worked really hard to support that money staying with children's services, and to be able to undertake the work that it was allocated for, but that is a continuing challenge for all of us."[62]

122. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod gan wasanaethau ar ffiniau gofal a gwasanaethau ar gyfer plant yn y system, er enghraifft eirioli, gyllid penodol. Nodwn fod y trosglwyddiad o £8 miliwn i'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i weithredu heb Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Rydym yn cytuno â'r pryderon

[60] Llywodraeth Cymru **Papur Cabinet** (Saesneg yn unig) Tachwedd 2017

[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 05**

[62] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 338

a fynegwyd na fydd yr arian hwn o reidrwydd yn cael ei ddyrannu i wasanaethau ar ffiniau gofal, sy'n ymddangos yn gwbl ymarferol o ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol. O ystyried pwysigrwydd gwasanaethau ar ffiniau gofal a'r effaith bosibl y gallent ei chael, rydym yn bwriadu gwneud gwaith pellach ar hyn fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

123. Mae pennod pump o'r adroddiad hwn yn trafod symud arian ar gyfer gwasanaethau eirioli i'r Grant Cynnal Refeniw.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, adolygu effaith trosglwyddo cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal i'r Grant Cynnal Refeniw o fis Ebrill 2018 i asesu'r effaith ar blant sydd wedi bod mewn gofal a gwasanaethau ar ffiniau gofal.

Y Grant Datblygu Disgyblion

124. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion o £1,150 fesul disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Darperir y Grant hefyd ar gyfer Consortia Addysg Rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig.

125. Bydd £4.5 miliwn yn cael ei dalu yn 2018-19 i'r consortia addysg rhanbarthol i'w ddosbarthu er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, yn seiliedig ar 3,907 o blant sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n derbyn gofal. Nid yw'n ystyried nifer y disgyblion sydd wedi'u mabwysiadu, a amcangyfrifir rhwng 3,000 a 3,500, er eu bod yn gymwys am y cyllid hwn. Felly, gellid dadlau bod y swm o arian sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal bron i hanner yr hyn y bwriadwyd iddo fod, neu y dylai fod. Yn Lloegr, mae disgyblion sy'n derbyn gofal yn cael cyfradd o £1,900 fesul disgybl ar gyfer plant mabwysiedig a phlant sy'n derbyn gofal ac fe'i telir yn uniongyrchol i'r ysgol.

126. Rydym yn croesawu'r sicrwydd yn y dystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru:

> "... consideration was being given to collecting data on adopted children through the pupil level annual school census (PLASC)."

127. Fodd bynnag, nid yw'n glir i'r Pwyllgor pam mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gonsortia Rhanbarthol ariannu plant mabwysiedig a phlant sy'n derbyn gofal yn seiliedig ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn unig. Mae hyn yn lleihau'r arian sydd ar gael i'r grwpiau hyn yn syth a rhaid mynd i'r afael â hyn.

128. Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol. Roedd ei adroddiad[63], a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn mewn perthynas â gwario ar blant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig:

> **Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dull gweithredu strategol, effeithiol ar waith o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, gan roi ystyriaeth briodol i werthusiad ICF Consulting ac yna gwneud unrhyw welliannau a nodir yn ôl yr angen.
>
> **Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:** Ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried agweddau perthnasol ar adroddiad gwerthuso ICF Consulting.
>
> **Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ar frys sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella ymgysylltiad plant sy'n derbyn gofal â'u haddysg, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb a chyfraddau gwahardd. Dylai hyn ystyried casgliadau gwerthusiad ICF Consulting.
>
> **Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal drwy gydol oes y Grant Datblygu Disgyblion a'r goblygiadau posibl yn sgil newid mesurau perfformiad. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad o hyn, ac ystyried sut y gall y Grant Datblygu Disgyblion gael mwy o effaith o ran gwella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal.
>
> **Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:** Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i gynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal am unrhyw gyfnod sylweddol yn eu bywydau. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu dyraniadau i'r consortia rhanbarthol yn unol â hynny a sicrhau bod y consortia hefyd yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion at y disgyblion hyn. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfnod sylweddol, gan gynnwys ystyried awgrym y Pwyllgor, sef unrhyw gyfnod o 13

[63] Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: **Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol**, Mehefin 2018

wythnos neu fwy, fel y defnyddir wrth benderfynu cymhwystra plant sydd wedi bod mewn gofal ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal.

Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Dylai Llywodraeth Cymru roi dull ar waith o'r flwyddyn academaidd 2018/19 i alluogi rhieni i hysbysu ysgolion pan fydd eu plant yn blant mabwysiedig a chasglu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at gofnod ysgol y plentyn. Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu cymorth o dan y Grant Datblygu Disgyblion tuag at ddisgyblion y gwyddys eu bod yn blant mabwysiedig ac i alluogi i ganlyniadau unigol disgyblion sy'n blant mabwysiedig gael eu monitro mewn modd tebyg i blant sy'n derbyn gofal.

Argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig i bob consortiwm rhanbarthol fesul plentyn sy'n derbyn gofal a phlentyn mabwysiedig hysbys ym mhob rhanbarth. Lle nad yw union nifer y plant mabwysiedig yn hysbys, dylid defnyddio'r amcangyfrif gorau.

129. Rydym wedi nodi gwerth am arian y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal fel ffrwd i'w hystyried yn y dyfodol. Roeddem yn siomedig y comisiynwyd gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan Lywodraeth Cymru llawer yn hwyrach na'r gwerthusiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac nid yw wedi'i gyhoeddi o hyd ar adeg drafftio'r adroddiad hwn.

130. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Medi 2018. Roeddem yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad ynghylch sicrhau bod y cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ddyrannu i bob consortiwm rhanbarthol fesul plentyn sy'n derbyn gofal a phlentyn mabwysiedig hysbys ym mhob rhanbarth oherwydd diffyg y wybodaeth briodol.

131. Er ein bod yn deall bod anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth hon, ac yn croesawu'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi ysgrifennu at benaethiaid yn tynnu sylw at yr angen i wybod pwy yw eu plant mabwysiedig i sicrhau cefnogaeth ddigonol[64], nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn ddigonol. Rydym wedi nodi'r Grant Datblygu Disgyblion fel maes y byddwn yn ei ystyried o ran gwerth am arian yn y dyfodol, ac mae'r ffaith bod grŵp allweddol o blant sy'n

[64] Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

derbyn gofal yn gymwys ar gyfer y grant ond nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol yn fater o bryder.

5. Atal ac ymyrraeth

Gwnaethom ofyn a yw cyrff cyhoeddus wedi rhoi digon o bwyslais ar ddull gwariant ataliol ar gyfer yr hirdymor, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau y ceir y buddiannau gorau posibl o'r gwariant cyhoeddus ar gyfer y grŵp hwn o blant.

Pam mae hyn yn bwysig?

132. Mae plant sy'n byw yng Nghymru yn fwy tebygol o fynd i ofal na'r rheini yn Lloegr. Yng Nghymru, mae 95 allan o bob 10,000 o bobl yn blant sy'n derbyn gofal, o'i gymharu â 62 allan o bob 10,000 o bobl yn Lloegr. Clywodd y Pwyllgor awgrymiadau, hyd yn oed pan fyddwch yn cymryd i ystyriaeth amddifadedd a thlodi a rhai ffactorau eraill, mae'n 20 i 25 y cant yn fwy o hyd. Cred y Pwyllgor y gallai ailgyfeirio gwariant i wasanaethau ataliol leihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal, gan arwain at werth gwell am arian cyhoeddus a chanlyniadau gwell i blant.

133. Thema gyffredin gan y bobl ifanc a roddodd dystiolaeth inni oedd yr angen i ystyried eu barn.

134. Er bod oedran cyfartalog person ifanc pan mae'n gadael cartref yn 24 oed, disgwylir i lawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal fod yn annibynnol yn 18 oed. Mae angen am fuddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae hyn er lles plant ac mae ganddo hefyd y potensial i fod yn enghraifft effeithiol o wariant ataliol. Mae'r ffigurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan Fabric, elusen sy'n ceisio gwella lles emosiynol y rheini sy'n gadael gofal, yn dangos bod 20 y cant o bobl ddigartref yn rhai sy'n gadael gofal, mae 25 y cant o garcharorion sy'n oedolion wedi bod mewn gofal, ac mae 14 y cant o fenywod ifanc sy'n gadael gofal yn feichiog neu eisoes yn fam. Dim ond drwy ddarparu digon o gefnogaeth wrth i bobl ifanc droi'n oedolion y gallwn fynd i'r afael â hyn.

Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym:

“When you get taken off your parents, they should try and help them as well, like, get better, or come off drugs, or whatever the situation is. There should be support there for them as well to try and get us home, but there’s not, there’s nothing.”

“It’s also about knowing about the right to advocacy, because every care-experienced young person has a right to an advocate, but they don’t know they have a right to an advocate. They can’t access advocacy services, unfortunately.”

“It’s not so much that you can’t access advocacy services; it’s that if young people don’t know that advocacy exists then they’re not offered it. And, to be honest, I think, personally, that it may be a cost-cutting measure on the part of some authorities. They just don’t want to spend the money on advocacy, because we all know that local authority budgets are really stretched at the moment.”

“[…] I had a lot of trouble when I was leaving care. Oh, yes. There was a lot of support and guidance when I was in care, but then, when you get to 18, it’s, ‘You’re on your own, Jack. Good luck’, and it’s like, ‘Okay’.”

Beth y gwnaethom ddysgu am hyn?

Canlyniadau gwell o fuddsoddiad mewn gwasanaethau 'ar ffiniau gofal'?

135. Un maes o ddiddordeb inni oedd tystiolaeth gan rai o'r bobl ifanc nad oedd eu teuluoedd, yn eu barn hwy, bob amser wedi cael y gefnogaeth gywir. Cawsom wybod y gallai hyn olygu y gallent fod wedi aros gyda'u teuluoedd geni a chael canlyniadau gwell o gael eu cadw allan o'r system ofal.

136. Awgrymwyd y gallai ailgyfeirio gwariant i wasanaethau ataliol leihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal, a fyddai'n arwain at werth gwell am arian cyhoeddus a chanlyniadau gwell i blant. Amlygodd Naomi Alleyne fod y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar wedi rhoi cost ymyrraeth hwyr yng Nghymru a Lloegr:

> "...at almost £17 billion, with £6.2 billion falling directly on children's social care."[65]

137. Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd y byddai £8 miliwn o gyllideb ôl-ddilynol i gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal. Roedd £5 miliwn o hyn ar gyfer gwasanaethau i ehangu gwasanaethau ar ffiniau gofal. Darparwyd cyllid o £850,000 hefyd i ehangu'r "Prosiect Myfyrio" o beilot yng Nghasnewydd i brosiect Cymru gyfan. Cyfeirir at y prosiect hwn ymhellach ym mharagraff 117 yr adroddiad hwn. Mae pennod pedwar o'r adroddiad hwn yn trafod ein barn ar y cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.

138. Nod y buddsoddiad blynyddol o £5 miliwn yw ehangu gwasanaethau "ar ffiniau gofal" awdurdodau lleol i gryfhau'r gefnogaeth i deuluoedd sy'n agored i niwed ac atal plant rhag mynd i ofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod gan y buddsoddiadau hyn y potensial i atal oddeutu 330 o blant bob blwyddyn rhag mynd i mewn i'r system ofal.[66]

139. Mae ein diddordeb yn y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi'i osod yng nghyd-destun y cynnydd mewn niferoedd a chyfraddau plant sydd wedi bod mewn gofal fesul 10,000 o blant sydd wedi bod yn codi yng Nghymru ers dechrau'r 1990au. Canfu un o'r adroddiadau Adolygiad Argyfwng Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018[67] fod ceisiadau am orchmynion gofal, yn ystod

[65] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 177

[66] Llywodraeth Cymru **Papur Cabinet** (Saesneg yn unig) Tachwedd 2017

[67] Adolygiad Argyfwng Gofal, **Ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd cenedlaethol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a cheisiadau am orchmynion gofal** (Mehefin 2018) [Fel ar 27 Medi 2018]

y degawd diwethaf, wedi mwy na dyblu yng Nghymru a Lloegr. Nodir yn yr adroddiad:

> "In 2017 in England and Wales local authorities had larger numbers of children in care than ever before. The previous year the courts had record numbers of applications for care proceedings. There are serious concerns about whether the child welfare and family justice systems can be sustained with the current levels of demand."

140. Mae'r adroddiad yn cynnwys y graffiau a ganlyn:

Nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru



Source: StatsWales: Children looked after at 31 March 1977-2002

Ceisiadau gofal cyhoeddus yng Nghymru



Source: Cafcass Cymru

Plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o blant yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru 2017



Source: StatsWales

141. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r data hyn, gan nodi:

> "Fel ar 31 Mawrth 2017, roedd 5,954 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sy'n gynnydd o 5% o gymharu â'r llynedd. Mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn 95fesul 10,000 yng Nghymru, o gymharu â 62 fesul 10,000 yn Lloegr. Mae cyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru ac er eu bod yn cyfateb yn gyffredinol i lefelau amddifadedd, ceir awdurdodau a chanddynt lefelau sylweddol o amddifadedd ond sydd â chyfraddau cymharol isel o blant sy'n derbyn gofal."[68]

142. Yn ddiweddar, bu mwy o ffocws yn y DU ar famau sy'n rhan o achosion gofal rheolaidd lle caiff plant olynol eu symud i ofal. Canfu Adroddiad Adolygiad Argyfwng Gofal mis Mehefin 2018[69] fod oddeutu un o bob pedwar menyw sydd wedi bod yn rhan o achosion gofal mewn perygl o ailymddangos mewn achosion gofal o fewn saith mlynedd. Mae'r ffigurau hyn wedi bod yn weddol sefydlog dros y degawd diwethaf.

143. Clywsom mai prif nod y prosiect Myfyrio yw atal menywod sydd wedi wynebu plentyn yn cael ei roi mewn gofal yn orfodol rhag cael beichiogrwydd arall yn y byrdymor, tra bod symud unrhyw blentyn yn y dyfodol i ofal yn parhau i fod y canlyniad mwyaf tebygol. Datblygwyd y rhaglen gan Gyngor Dinas Casnewydd, gyda chymorth Barnardo's Cymru, i gefnogi mamau ar ôl i'w plentyn neu blant

[68] **Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 30 Ebrill 2018**

[69] Adolygiad Argyfwng Gofal, **Adroddiad Opsiynau ar gyfer Newid** (Mehefin 2018) [Fel ar 27 Medi 2018]

gael eu rhoi mewn gofal yn barhaol oherwydd pryderon amddiffyn plant. Ym mis Mai 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cyllid ar gyfer y rhaglen yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

144. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y graddau y gellid atal plant yn briodol rhag mynd i mewn i'r system ofal ac a yw dull o'r fath yn sicrhau canlyniadau gwell ond hefyd yn darparu gwell gwerth am arian yn yr hirdymor.

145. Gall hyn fod yn berthnasol i fenywod ifanc sy'n feichiog tra maent yn y system ofal. Dangosodd astudiaeth yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2016:

> "More than five times as many currently looked after young people (5%) were recorded as pregnant compared to the general population of under 18-yearolds in Wales (0.8%). Looked after children were significantly more likely to progress a pregnancy through to a live birth than non-looked after children: 70% (28 out of 40 pregnancies) compared to 28% (183 out of 661 pregnancies)."[70]

146. Dangosodd hefyd:

> "The risk of young pregnancy is heightened by frequent placement moves, linked to the impact of this on young people's ability to build healthy relationships (either with partners or trusted professionals)."

147. Mae'r adroddiad Adolygiad Argyfwng Gofal[71] a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 yn nodi:

> "Successive research studies have also found an over-representation of parents with childhood care experiences involved in care proceedings and the increased likelihood of their children being removed from their care."

148. Dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrth y Pwyllgor fod pwysau gwariant cyhoeddus ar awdurdodau lleol wedi arwain at "ostyngiad difrifol" mewn gwasanaethau plant gydag ymyrraeth gynnar.

---

[70] Brîff Ymchwil Cascade: **Plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal a'r risg o feichiogrwydd yn eu harddegau: canfyddiadau o Gymru: Crynodeb o Ymateb Cenedlaethol** (Ionawr 2016) (Saesneg yn unig) [Fel ar 27 Medi 2017]

[71] Adroddiad Argyfwng Gofal, **Options for Change**, Mehefin 2018 (Saesneg yn unig) [Fel ar 12 Tachwedd 2018]

149. Amlygodd y Cynghorydd Huw David fod awdurdodau lleol yn awyddus i ymyrryd yn gynnar ar y sail a ganlyn:

> "... once they've reached that crisis point, for whatever reason, it is very difficult to go back and it's also very expensive, obviously, to place a child in care. We want to work with the families before they reach that stage, because that has better outcomes for the children, it's better for the parents, and it's better for the state, as well, not to actually become the corporate parent. The evidence is that, in most cases, you can do that. I was looking at evidence this morning: 85 per cent of the families that we've worked with in our edge of care programme in Bridgend over the last four years, the children have stayed with their families. They're not being looked after by other people; they're getting support from a family support worker or educational psychologist, or education welfare officer or some additional support like that."[72]

150. Yn yr un modd, dywedodd y Cynghorydd Geraint Hopkins fod hyn yn heriol i awdurdodau lleol oherwydd:

> "...while we are trying to shift spend from the crisis end of the expenditure to early intervention, we still have to meet the costs of the crisis. So, you're trying your best to invest in early intervention services and you've got a finite amount of money to spend, you're spending it, we all acknowledge, at the higher end of need, you're trying to move spend for early intervention services, but you simply don't have the money to do that while you're also still dealing with the current crisis."[73]

151. Amlygodd Alistair Davey rai o'r liferi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o ran ymyrraeth gynnar, gan nodi gorau po gyntaf mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar gan y bydd mwy o arian yn cael ei arbed yn y pen draw. Ychwanegodd:

> "[...]in terms of the ministerial advisory group, one of the work streams that we're now developing is very much around prevention and intervention, because I think you're right, this is about getting the right balance between very early intervention and prevention, going all the way through to edge of care, because the role of the ministerial advisory group is both looking at preventing children coming into care, improving outcomes for children in care, and improving outcomes for care leavers. So, the real focus that we're placing at the moment, as we

[72] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 77

[73] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 65

> go forward around that value for money, is on the prevention and intervention agenda."[74]

152. Nid archwiliodd y Pwyllgor yn fanwl iawn yn yr ymchwiliad hwn werth agweddau megis gofal perthynas mewn bywydau plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Fodd bynnag, rydym yn nodi casgliad yr Adolygiad Argyfwng Gofal bod adnodd sylweddol heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer rhai plant ar ffiniau gofal ac mewn gofal, sef eu teulu a'r gymuned ehangach. Rydym hefyd yn nodi ac yn cadarnhau ei farn y gallai mwy o ffocws ar archwilio a chefnogi'r adnodd hwn osgoi'r angen, mewn modd diogel, i blant ddod i mewn i ofal neu gallai eu helpu i ffynnu yn y system ofal ac rydym yn awyddus bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion yn yr adolygiad hwn ac yn gweithredu arnynt.

153. Ymddengys yn amlwg i'r Pwyllgor fod angen cyllid clir ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal. Dyma lle gallai newid go iawn effeithio ar fywydau plant a allai o bosibl fynd i mewn i ofal. Rydym yn derbyn y bydd y ddarpariaeth ariannu gyfredol yn cael ei chynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw, ac rydym wedi argymell bod hyn yn cael ei fonitro. Ond credwn fod angen gwneud mwy.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru dargedu cyllid wedi'i neilltuo at wasanaethau ar ffiniau gofal sydd â'r potensial, pan fo'n ddiogel gwneud hynny, i atal plant rhag bod yn rhan o'r system ofal. Dylai'r arian hwn archwilio gwerth elfennau megis gofal perthynas. Gallai hefyd gefnogi awdurdodau lleol i fonitro canlyniadau'n barhaus ar gyfer y plant unigol hyn a gwerth am arian y gwariant ataliol hwn.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

154. O ran canlyniadau i bobl ifanc, clywsom dystiolaeth nad yw'r system bresennol yn rhoi digon o gefnogaeth i blant sydd wedi bod mewn gofal i fod yn iach yn emosiynol ac yn feddyliol o ran ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol. Mae gan y diffyg cefnogaeth ar gyfer y plant hyn i fod yn wydn yn emosiynol, y gallu i arwain at fod angen mwy o arian pan fydd 'argyfyngau' yn digwydd yn ddiweddarach.

155. Dywedodd y Cynghorydd Geraint Hopkins wrthym:

> "...clearly, from a children's services point of view, we need access to a good, timely CAMHS service. The courts require it when we're doing psychological assessments and, also, we need it in that ongoing support that we give to children who need CAMHS. I think everybody

[74] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 28

> has agreed that CAMHS could do a lot more than it is. To be fair to everybody, they're under pressure, just as we all are, and we need to consider that."[75]

156. Awgrymodd Cyngor Sir Gâr yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "All looked after children are not currently, but should be prioritised for CAMHS consultation, assessment and therapy if required. CAMHS should receive additional funding for Looked After Children specifically as currently they are unable to prioritise this group due to overstretched resources. The children with unresolved psychological issues, whilst not presenting with mental illness, are quite likely to present these problems as adults therefore this should be considered as an important preventative approach to practice. This is supported by Adverse Childhood Experiences research. Whilst pockets of good practice may exist, it does not appear to be consistent across Wales."[76]

157. Amlygodd Naomi Alleyne yr angen am ymagwedd system gyfan tuag at gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal i fod yn wydn yn emosiynol, gan ddweud:

> "...not just the formal CAMHS system, but a lot more counselling within schools and emotional support provided at earlier stages, if you like, rather than, again, when things get to crisis point."[77]

158. Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i'r gefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc[78] a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Ebrill 2018. Darparodd Lynne Neagle AC dystiolaeth lafar inni fel Cadeirydd y Pwyllgor. O ran plant sydd wedi bod mewn gofal, dywedodd adroddiad y Pwyllgor:

> "Roeddem yn arbennig o bryderus am y dystiolaeth ar y cyd a gawsom gan y gwasanaethau plant, gwasanaethau mabwysiadu ac awdurdodau lleol, yn sôn bod y gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 'ar y dibyn' ac 'mewn argyfwng', a bod lle i ddadlau bod y

[75] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 86

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 08**

[77] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 87

[78] Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc** (Ebrill 2018)

trefniadau cydweithio rhwng y GIG a llywodraeth leol ar wasanaethau therapiwtig yn mynd am yn ôl."

159. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnwys y canlynol:

> Argymhelliad 22. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws asiantaethau i sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu wrth iddynt gael mynediad i ofal ac ar ôl derbyn gorchymyn atgyfeirio o fewn y system cyfiawnder ieuenctid, ac fel mater o drefn ar ôl hynny. Bydd hyn yn helpu i gynllunio darpariaeth ddigonol o gymorth amlddisgyblaethol i ddiwallu eu hanghenion, sy'n gymhleth yn aml iawn, mewn modd amserol a phriodol.
>
> Argymhelliad 23. Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, yn ymgymryd â darn o waith ar ddarparu cymorth emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl i blant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiadwyd. Dylai hyn:
>
> - gael ei hysbysu gan weithgaredd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar blant sy'n derbyn gofal a gwaith y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc; ac
> - ystyried, yn achos plant sy'n derbyn gofal, i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol i ddarparu'r cymorth corfforol ac emosiynol sydd ei angen arnynt.

160. Derbyniodd Llywodraeth Cymru Argymhelliad 22 gan ddweud bod hyn eisoes yn wir a bod y gwaith yn mynd rhagddo. Dywedodd:

> "All children and young people in care have a right to have a health assessment and a health plan, which should include an assessment of mental health needs. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 requires social care and health professionals to work together to ensure the good health of LAC and that their health is checked on a regular basis. The first assessment should occur before, or within, the first 20 days of being in care and should reoccur at six monthly intervals for under fives, and at least annually for over five year olds."

161. Derbyniodd Argymhelliad 23 mewn egwyddor, gan ddweud:

> "Mae hwn yn waith manwl nad oes modd ei gwblhau o fewn amserlen mor fyr. Mae gwaith ar droed o fewn y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, Grŵp Gorchwyl a Gorffen MAG Preswyl a Grŵp Anghenion Cymhleth dan arweiniad CLlLC, ac mae angen i bob un ohonynt gydweithio a llywio syniadau a gweithgarwch pob Grŵp."[79]

162. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn Argymhelliad 22, nid yw'n glir sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr asesiadau ar fynediad i ofal yn digwydd. Mae'r dystiolaeth a gawsom, gan adleisio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn awgrymu nad yw'r plant sydd wedi bod mewn gofal yn amlwg yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. O ystyried natur hanfodol y gefnogaeth gan CAMHS a'r manteision ataliol a gynigir, credwn fod angen atebolrwydd i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn digwydd.

163. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru ond yn derbyn Argymhelliad 23 mewn egwyddor, ond yn ei hanfod yn ei wrthod. Er bod y pryderon ynghylch yr amserlen yn ddilys, mae'r angen am weithredu'n gyflym yn amlwg ac mae Llywodraeth Cymru wedi methu â chydnabod agwedd rhianta corfforaethol yr argymhelliad hwn o gwbl.

164. Rydym hefyd yn ystyriol bod angen cynnig ehangach i'r rhai a allai fod yn amharod i ymgysylltu â CAMHS neu'n ofni'r stigma posibl sy'n gysylltiedig â bod yn gysylltiedig â CAMHS. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc wrthym yn breifat:

> "I was going through a rough patch, my social worker at the time was like, 'Let's sort out CAMHS'. I was like, 'I don't need CAMHS. All I need is support by family and friends', and whoever else I wanted. I was not ready at all for counselling or other sorts of things, right? So, obviously, I had to go to CAMHS, and, let's be honest, it made it worse."

165. Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi mynegi siom yn ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad. Dywedodd Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor:

> "Fel Pwyllgor, rydym yn gwrthod yr ymateb hwn; nid yw'n ddigon da."[80]

166. Ychwanegodd Lynne Neagle AC:

[79] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

[80] Cyfarfod Llawn 4 Gorffennaf 2018

> "Dyna pam y mae'n rhaid i mi ddweud, yn anffodus, fy mod i a'r pwyllgor yn siomedig iawn gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion. Yn gyntaf, mae gormod o bwyntiau hanfodol wedi'u gwrthod. Yn ail, er bod llawer o argymhellion wedi cael eu derbyn mewn egwyddor, mae hyn, i raddau helaeth, ar y sail fod Llywodraeth Cymru o'r farn fod y pethau rydym wedi galw amdanynt eisoes yn eu lle."[81]

167. Nodwn, ym mis Medi 2018, mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion ar Ddull Ysgol Gyfan o Hybu Iechyd Meddwl a Llesiant[82] a bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn dweud y byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb ysgrifenedig diwygiedig i argymhellion ein hadroddiad erbyn mis Mawrth 2019.[83]

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei hymateb i adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg erbyn mis Mawrth 2019, gan ddarparu gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon yn yr adroddiad hwnnw o ran plant sydd wedi bod mewn gofal yn unol â chais Cadeirydd y Pwyllgor.

Symud ymlaen o ofal

168. Ffocws allweddol arall o wariant ataliol yw'r buddsoddiad mewn gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc pan fyddant yn symud allan o ofal awdurdod lleol.

169. Amlygodd Alistair Davey y canlynol:

> "... things like the St David's fund are supporting care leavers coming out and ensuring that we decrease the number who are not in employment, education or training, because they're six times more likely to have their children taken into care. We've got to look at all parts of the system here, about how it reinforces prevention and intervention."[84]

[81] Cyfarfod Llawn 4 Gorffennaf 2018

[82] **Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru - Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd y Gweinidogion ar Ddull Ysgol Gyfan o Hybu Iechyd Meddwl a Llesiant, 7 Medi 2018**

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPE(5)-24-18 Papur i'w nodi 8, 20 Medi 2018

[84] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 97

170. "Pan fydda i'n barod" yw'r term a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer trefniant lle mae person ifanc mewn gofal maeth yn parhau gyda'i gyn-ofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed. Sefydlwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau newydd mewn perthynas â threfniadau byw ôl-18 o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithredu eu cynlluniau "Pan fydda i'n barod" lleol eu hunain yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

171. Roedd cefnogaeth eang i'r cynllun hwn, ond roedd rhai pryderon ynglŷn â'r cyllid. Roedd y Cynghorydd Geraint Hopkins yn cefnogi'r egwyddor o bobl ifanc yn aros mewn gofal maeth am gyfnod hwy. Yn anochel mae hyn yn golygu bod angen mwy o leoliadau. Dywedodd:

> "I think the point we make is that if, as a national body, you put further demands on us, then you should be prepared to help us pay for them. I don't think that's an unreasonable position to take."[85]

172. Awgrymodd y Rhwydwaith Maethu yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "When I'm Ready and other 18+ living options are a good first step, but we believe that local authorities should continue their commitment as corporate parents in the longer term. This would have long- term benefits for the individual and both benefits and savings for society as a whole."[86]

173. O gofio'r ystadegau syfrdanol am y canlyniadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal y mae eu plant wedyn wedi mynd i ofal, neu'n mynd i'r carchar neu'n ddigartref, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cymorth trosiannol hwn i'r rhai sy'n gadael gofal yn hanfodol. Dylai ariannu'r gwasanaethau hyn arwain at ganlyniadau gwell i bobl ifanc ac arbedion ariannol yn yr hirdymor. Byddem yn disgwyl y byddai'r ffigurau a gasglwyd yn argymhelliad saith hefyd yn nodi cyllid ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal a sut y mae gwerth yn cael ei sicrhau yn hyn o beth.

Rhianta Corfforaethol

174. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio'r cysyniad "rhianta corfforaethol". Y cysyniad yw cyfrifoldeb cyfunol ar draws gwasanaethau ac ar draws awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a CLlLC ar y cyd "**Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn**

[85] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 147

[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, **PAC(5)-05-18 P3, 12 Chwefror 2018** (Saesneg yn unig)

rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal", 2009. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> "A good corporate parent seeks the same outcomes for children in their care and care leavers that every good parent would want for their own children by ensuring they do everything possible to give them the best possible start in life."

175. Clywodd y Pwyllgor nifer o bryderon bod diffyg perchenogaeth yn y strwythur hwn. Dywedodd Irfan Alam, Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd:

> "...at the moment, it feels like we—the royal 'we'—heads of children's services, end up holding the baby at the end of the line, and it's us who're looking for that placement and carrying the risk if we can't find a placement. For me, it's about the ownership with partners—health, police and education. If our partners worked with us and saw this as an issue that all of us can grapple with together and find a solution together, it would be the golden nugget, in my view, but at the moment, the statutory responsibility to seek and provide a placement sits just with us—the heads of children's services. So, I think that one thing could potentially help."[87]

176. Galwodd y Cynghorydd Huw David am fwy o gyfrifoldeb dros rianta corfforaethol. Cyfeiriodd at yr ymagwedd a fabwysiadwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o fabwysiadu Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol:

> "Every cabinet member sits on that and we have representations from each and every political group, but what we don't have is representation from the local partners like the health board, like the police service. —the support and services that these young people need and these children need are not from just one agency, they're almost always often from education, from health, from police, from the local housing association."[88]

177. Dywedodd Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

> "... anything that Welsh Government can do to really bolster the corporate parenting role that the whole local authority has, not just

[87] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 369

[88] Cofnod y Trafodion, 26 Chwefror 2018, paragraff 223

> children's services, in order to support our young people leaving care would be really helpful."[89]

178. Pwysleisiodd y Grŵp Hollbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal:

> "...the corporate parenting obligation should extend across public services embracing health, housing, education and ... the police. If we want to achieve a transformation this is the sort of radical thinking that is required. Corporate parenting cannot start and end in Children's Services departments of local authorities."[90]

179. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn nodi mai un o'r camau gweithredu ar gyfer ffrwd gwaith tri o'r Grŵp Cynghori Gweinidogol yw:

Maes Gwaith	Cynnydd	Amserlen
19. Diwygio ac ymestyn y canllawiau Rhianta Corfforaethol fel bod uwch-swyddogion yn y meysydd maes tai, addysg, cyfiawnder troseddol, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau corfforaethol am blant sy'n derbyn gofal.	Cynhaliwyd digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar 8 Chwefror. Mae Voices from Care yn gweithio ar ddiwygio canllawiau yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.	Mai 2019

180. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod rôl rhieni corfforaethol yn hollbwysig ym mywyd plant sydd wedi bod mewn gofal. Clywsom gan bobl ifanc am effaith cefnogaeth gan ystod o feysydd gwahanol, megis athro a llyfrgellydd, a phwysigrwydd cael nifer o wahanol lwybrau cymorth. Er enghraifft, yn ymateb ysgrifenedig Plant yng Nghymru, dywedodd un person ifanc:

> "There needs to be more than 1 designated teacher in each school that has experience supporting young people in care. If you don't like that one person, you miss out on all the support on offer."[91]

181. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn cymryd y rôl hon o ddifrif ac yn gwneud ein gorau i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Credwn fod angen i hyn fod yn fwy na dim ond arweiniad, a dylai fod yn gam amlwg.

---

[89] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2018, paragraff 381

[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 14**

[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 06**

182. Mae'r Pwyllgor wedi nodi rhianta corfforaethol fel maes posibl ar gyfer ymchwiliad pellach. Rydym yn bwriadu dychwelyd i edrych ar sut y mae rolau rhieni corfforaethol yn cael eu cyflawni gan ystyried y canllawiau diwygiedig.

Eiriolaeth

183. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rai grwpiau o blant, yn benodol "plant sy'n derbyn gofal", "plant mewn angen" a'r "rhai sy'n gadael gofal", a oedd yn ddyletswydd statudol i ddechrau o dan Ddeddf Plant 1989. Yn fwy diweddar, mae'r dyletswyddau hyn wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

184. Nod gwasanaethau eirioli yw hyrwyddo barn, dymuniadau a theimladau plentyn, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ac y gweithredir ar eu rhan yn ystod y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd plentyn. Dylai hefyd helpu i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar waith.

185. Dylai eiriolaeth:

- gael ei harwain gan y plentyn neu'r person ifanc;
- fod yn gyfrinachol (oni bai fod pryderon o ran amddiffyn plant); a
- chynrychioli llais y plentyn yn hytrach na gweithio o safbwynt budd gorau.

186. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "gynnig gweithredol". Mae hyn yn golygu y dylai bob plentyn a pherson ifanc fod yn ymwybodol o wasanaethau eirioli a sut y gallent gael mynediad at eiriolwr ar yr adeg y maent yn dod yn rhan o'r system gofal statudol. Dylai awdurdodau lleol dddatblygu hyn drwy "Ddull Cenedlaethol o ran Gwasanaethau Eirioli Statudol".

187. Yn ei ymchwiliad yn 2017, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod oedi rhwystredig ac annerbyniol wedi bod o ran cytuno ar Ddull Cenedlaethol o ran Gwasanaethau Eirioli Statudol, a'i roi ar waith.[92]

188. Roedd hefyd yn ystyried i ba raddau y mae ystyriaethau ariannol wedi bod yn rhwystr i weithredu'r "Dull Cenedlaethol". Ariennir Gwasanaethau Eirioli drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chlywodd y Pwyllgor mai'r canfyddiad mwyaf trawiadol ac

[92] Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Adroddiad yr ymchwiliad i'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol** (Chwefror 2017)

uniongyrchol oedd bod amrywiad enfawr yn y swm o arian yr oedd awdurdodau lleol yn ei wario ar eu dyletswydd eiriolaeth statudol.[93]

189. Ar y pryd, cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wybod bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £500,000-550,000 tuag at weithredu'r dull cenedlaethol a oedd wedi'i gostio rhwng £1 a £1.1 miliwn. Fodd bynnag, nid oedd yn fwriad yn y tymor hwy i neilltuo'r cyllid ychwanegol i sicrhau y caiff ei gynnal ar y lefel bresennol.[94]

190. Dywedodd Alistair Davey fod Llywodraeth Cymru wedi:

> "...invested a lot of money in the service—£550,000 to get the social services regional collaboratives up and running. So, that has been a big challenge for us, but now that work is well under way, ...we're getting really positive feedback now that that's really starting to bite, and we're driving that consistency across Wales."[95]

191. Mynegodd Tros Gynnal Plant a Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru bryderon yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, gan ddweud:

> "Rydym yn pryderu am yr ymrwymiad i ariannu polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor, er enghraifft, y gwelliannau ariannol presennol i alluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar eu hawliadau eiriolaeth statudol. Rydym yn pryderu'n fawr y caiff y lefel bresennol hon o gyllid ei hamsugno yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2019, heb unrhyw sancsiynau."[96]

192. Mae deall anghenion y plentyn yn hanfodol er mwyn darparu'r gefnogaeth gywir a sicrhau canlyniadau da. Cred y Pwyllgor fod buddsoddi yng "nghynnig rhagweithiol" gwasanaethau eirioli i bob plentyn sydd wedi bod mewn gofal nid yn unig er lles plant, ond mae ganddo'r potensial i ailgyfeirio amser ac arian i'r dull mwyaf buddiol a chost-effeithiol.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr holl blant sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu hysbysu'n rheolaidd o'u hawl i eiriolwr ac yn cael gwybodaeth glir am sut i gael gafael ar yr ystod o wasanaethau eirioli sydd ar

[93] Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Adroddiad yr ymchwiliad i'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol** (Chwefror 2017)

[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 01**

[95] Cofnod y Trafodion, 30 Ebrill 2018, paragraff 24

[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, **CECYP 01**

gael. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro hyn a'i ymgorffori yn y dangosyddion ar gyfer y Grŵp Cynghori Gweinidogol.

Atodiad - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: **http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16183**

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Ionawr 2018	Sally Holland – Comisiynydd Plant Cymru Rachel Thomas – Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru Irfan Alam – Cyngor Caerdydd Kate Devonport – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Sally Jenkins – Cyngor Dinas Casnewydd Gareth Jenkins – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
12 Chwefror 2018	Pobl ifanc o Voices from Care* Chris Dunn – Voices from Care* Sean O'Neil – Plant yng Nghymru* Pobl ifanc o Fabric* Harri Coleman – Fabric* Colin Turner – Rhwydwaith Maethu Kate Lawson – Rhwydwaith Maethu * Clywodd y Pwyllgor gan Voices from Care, Plant yng Nghymru a Fabric mewn sesiyniau tystiolaeth preifat
26 Chwefror 2018	Cynghorydd Huw David – Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru Cynghorydd Geraint Hopkins – Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru Naomi Alleyne - WLGA

30 Ebrill 2018	David Melding AC – Cadeirydd Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru* Lynne Neagle AC – Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* Albert Heaney – Llywodraeth Cymru Alistair Davey – Llywodraeth Cymru * Clywodd y Pwyllgor gan David Melding AC a Lynne Neagle AC mewn sesiynau tystiolaeth preifat